

ECO'R WYDDFA

RHIF 377

MAI 2010

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Teulu Jeri
- Sbot Olau ar Siôn Lloyd Roberts
- Tacsï diogel ar glicied botwm
- Tynny Coes a Thynnu Deigrin

ANTUR NEWYDD MEWN DILLAD PLANT 'DILLAD DEL'



Dyma brosiect cyffrous diweddaraf Antur Waunfawr a fydd yn fuddiol ar gyfer amrywiaeth eang o bobl. 'Dillad Del' yw'r cynllun dillad newydd sydd yn cynnig gwasanaeth ail-ddefnyddio dillad plant yn y gymuned leol.

Cesglir y dillad trwy'r banciau tecstiliau gan weithwyr Antur Waunfawr, maent yn addas ar gyfer unrhyw ddilladau nad yw pobl eu hangen. Gwerthir y dillad yn ôl i gwsmeriaid o'r gymuned leol trwy'r siop yn Warws Werdd, Cibyn.

Mynegodd Menna Jones, Prif Weithredwraig Antur Waunfawr:

'Mae'r cynllun yma yn cynnig cyfle i deuluoedd lleol brynu dillad o safon uchel am bris rhesymol, ac mae Antur Waunfawr yn falch o allu cynnig prosiect mor ddefnyddiol, ar adeg pan mae pobl yn colli swyddi a llai o bres ar gael ar gyfer hanfodion. Rydym hefyd yn annog pobl leol i roi eu dillad yn y banciau sydd â logo 'Antur Waunfawr' arnynt, er mwyn ein galluogi i ail-ddefnyddio mwy o ddefnyddiau yn lleol, ac ateb anghenion lleol.'

Menter gymunedol yw Antur Waunfawr sydd yn cynnig cyfleon gwaith i unigolion ag anableddau dysgu; ynghlwm â'r cynllun dillad newydd sydd wedi creu mwy o swyddi oddi mewn i'r cwmni, y mae'r gwaith arferol a gyflawnir gan yr unigolion yn parhau i fynd o nerth i nerth, gan gynnwys gwasanaeth arlwyio cartref, gwaith celf a chrefft, garddio, adnewyddu a chrcu dodrefn ac ailgylchu dcunyddiau. Bellach y mae Antur Waunfawr yn datblu dros 25 mlynedd llwyddiannus o

fodolaeth ac yn rhoi y cyfle i'r unigolyn ddatblygu i'w llawn botensial yn eu cymunedau lleol.

Mae 'Dillad Del' yn cyflwyno sialens newydd i greu tasgau gwaith newydd i weithwyr ag anabledd yn yr 'Ysgubor Fach' ar safle Waunfawr. Mae'r adeilad penodol hwn yn gweithio ar ffurf golchdy gyda threfniant ychwanegol o ddioli a dethol y dilladau. Ceir y cyfle wedyn i brynu'r eitemau fforddiadwy mewn adran arall o Antur Waunfawr, sef yr Warws Werdd yng Nghaernarfon. Wrth reswm, y mae hyn yn chwa o awyr iach i unrhyw riant yn enwedig wrth ystyried sefyllfa yr hinsawdd economaidd presennol.

Un o friadau sylfaenol Antur Waunfawr yw bod yn 'wyrdd' ym mhob ystyr ac maent mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd i geisio hyrwyddo hyn yn lleol drwy weithio ar y cyd yn Caergylchu. Dywed Uwch Swyddog Gwastraff Cyngor Gwynedd, Steffan Jones am yr ymgyrch:

'Mae'r fenter yma yn cyplysu yn dda gyda gwaith arall y mae Antur Waunfawr yn wneud yn Caergylchu. Mae'n dda gweld peth o'r dillad sydd yn cael eu casglu yn cael eu cadw o fewn Gwynedd ac yn cael eu hail-ddefnyddio. Mae treial eisoes wedi digwydd gyda chasgliadau dillad gyda'r boc glas a byddwn yn ymestyn y cynllun hwn yn ystod 2010.'

Un o aelodau brwd y cynllun dillad yw cydlynnydd safle Antur Waunfawr, Heulwen Huws, dywedodd:

'Trwy barhau â'r cynllun 'Dillad Del', mi fydd pawb yn helpu ei gilydd gan greu cadwyn llwyddiannus o gefnogi cwmni elusennol, yr economi leol, yr amgylchedd, y cymunedwyr a chwsmeriaid, cynilo gwariant personol a ffasiwn del a fforddiadwy i fabis a phlant!'

Er bod y cynllun dillad yn gweithredu ers rhai wythnosau



bellach, roedd Antur Waunfawr yn cynnal agoriad swyddogol ar ddydd Llun 26ain o Ebrill, 2010. Fel gwestai arbennig roedd y cyflwynwraig teledu adnabyddus,

Nia Parry i agor cypyrddau dillad y siop "Dillad Del" yn Warws Werdd ond oherwydd gwaeledd fe gamodd y Maer, Hywel Roberts i'r bwlch ar fyr rybudd.

CARTHION YN PERYGLU LLYN PADARN

Yn dilyn yr holl drafferthion a gafwyd y llynedd ynglyn â safon diogelwch Llyn Padarn, daeth mwy o broblemau i'r amlwg yn ystod yr wythnosau diwethaf pan ddarganfuwyd fod carthion amrwd yn ymarllwys i'r llyn o Afon Goch.

Mae swyddogion o Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i'r achos, a chredir mai carthffos yn agos i rannau isaf Afon Goch oedd yn gollwng, gan lygru'r 300 metr olaf o'i thaith i'r llyn. Bellach, mae'r garthffos wedi ei thrwsio a does dim mwy o garthion yn gollwng i'r afon. Dywedodd llefarydd ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd yng ngogledd Cymru fod aelod o'r cyhoedd yn Llanberis wedi cysylltu i roi gwybodaeth am y llygru, ond nad oedd sicrwydd pendant ers faint o amser roedd hyn wedi digwydd.

Mac Dwr Cymru, Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a'r Gymdeithas Bysgota leol yn ymwybodol o'r hyn ddigwyddodd, ac yn cadw golwg ar y sefyllfa.

Mae Llyn Padarn yn hynod sensitif i effeithiau llygredd, a chredir mai cymysgedd perffaith - ond anffodus - o lygredd a thywydd poeth y llynedd a achosodd y ffyniant yn nhwf y llynafedd gwyrdd a effeithiodd afon y Bala, Llyn Padarn, afon Saint a hyd yn oed y llyn ym mharc Caernarfon.

Bu'r effaith ar y defnydd o Lyn Padarn yn hynod rhwystredig, gan ddylanwadu ar ddefnydd lleol o'r llyn a hefyd gael effaith niweidiol ar y diwydiant twristaidd ym mhentref Llanberis. Does ond gobeithio na fydd yr un sefyllfa yn codi eto eleni.

Mae'n amlwg fod problemau hir dymor yn bodoli ynglyn â rhannau o sustem garthffosiaeth Llanberis, ac nid yw "cadw golwg" ar y sefyllfa yn dderbyniol. Mae angen cynllun tymor hir i ddatrys y broblem unwaith ac am byth, a dylai'r holl asiantacthau a'r cyrff cyhoeddus sydd â gwahanol gyfrifoldebau am y gymuned leol a'r llyn ddod at ei gilydd i wneud hynny.

ECO'R WYDDFA

RHIF 377

MAI 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i
Penarth**

Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH

Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS SUL MAI 16

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU 27 MAI

Dyddiad Gosod

Nos SUL MAI 23

Sefydliad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi i Law	Dyddiad Plygu	Ble
Mehefin	Mai 16	Mai 27	Brynrefail
Gorffennaf	Mehefin 20	Gorffennaf 1af	Bethel
Awst	-----	-----	-----
Medi	Awst 22	Medi 2il	Llanrug (y wasg yn plygu)
Hydref	Medi 19	Medi 30	Penisarwaun
Tachwedd	Hydref 1	Hydref 28	Llanberis
Rhagfyr	Tachwedd 21	Rhagfyr 2il	Caeathro
Nadolig	Rhagfyr 5	Rhagfyr 16	Ysgol Brynrefail

Llythyrâu

Garreg Wen
7 Y Ddôl
Bethel

CAIS AM WYBODAETH

Tra yn chwilita am wybodaeth i mewn i achau'r teulu rwyf wedi dod ar draws cyfeiriad i Ffatri Wlân Pentir yn y 1880au. Roedd y ffatri wedi ei sefydlu ar lôn Ty'n Llwyn wrth lan yr afon a ddim ymhell o Bont y Felin, ac mae'r olion yn dal yno er eu bod wedi eu gorchuddio erbyn hyn hefo gwair bras. A oes gan unrhyw un wybodaeth pwy oedd y perchennog a pha bryd cafodd ei hadeiladu, ac am ba hyd y bu'n gweithio. Cysylltwch â Bet Jones, Garreg Wen os gwelwch yn dda.
Diolch yn fawr
BET JONES.

Llwynhelyg
Mynachlogddu
Sir Benfro

CYMDEITHAS WALDO

Medi 30 - Diwrnod i gofio Waldo
Mae 'Cymdeithas Waldo' yn awyddus i hybu gweithgareddau i gofio am y gwladgarwr, yr heddychwr, y Crynwr a'r athrylith o fardd.
Ganed Waldo Williams ar 30 Medi, 1904. Hoffem pe byddai nifer fawr o gymdeithasau yn cynnal gweithgareddau, e.e. Swper a darlenniadau o'i farddoniaeth, darlith neu bererindod i lefydd yn gysylltiedig â'r bardd ar Fedi 30, dyddiad ei eni.

Os y byddwch yn cynnal gweithgareddau i gofio Waldo, rhowch y wybodaeth i'r cyfryngau er mwyn codi ymwybyddiaeth o Waldo.

Ein gobaith yw y bydd y dathlu yn achlysur blynyddol ar 30 o Fedi.

Bydd 'Cymdeithas Waldo' Mynachlogddu, Sir Benfro, yn cynnal eu cyfarfod blynyddol cyntaf yng Nghapel Bethel, Mynachlogddu gyda Emyr Llywelyn yn traddodi darlith am Waldo am 7.00 o'r gloch ar 30 Medi 2010. Pris mynediad fydd £3, plant ysgol am ddim.

Yn gywir
WYN OWENS
Ysgrifennydd



Annwyl Olygydd YMGYNGHORIAD CYNLLUN IAITH

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn paratoi ei Gynllun Iaith Gymraeg cyntaf a fydd yn cymryd lle'r gwahanol gynlluniau fu'n bodoli yn y Gwasanaeth Iechyd yng ngogledd Cymru. Datblygwyd y Cynllun drafft hyd yn hyn drwy gysylltu â'n staff a'n rhanddeiliaid ar draws gogledd Cymru.

Rydym yn gwahodd eich darllenwyr i roi sylwadau ar y blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun drafft ac mae cyfle iddynt wneud hynny tan ddydd Iau, 27 Mai 2010, pan ddaw'r cyfnod ymgynghori estynedig i ben.

Bydd yr ymatebion a dderbyniwn yn cyfrannu ymhellach at ddatblygu'r Cynllun. Bydd digwyddiadau ymgynghori hefyd yn cael eu trefnu mewn lleoliadau ar draws gogledd Cymru er mwyn casglu barn pawb sydd â diddordeb. Mae copiau o'r Cynllun Iaith drafft a manylion o'r digwyddiadau ymgynghori ar gael ar ein gwefan:

www.pbc.cymru.nhs.uk

Am fwy o fanylion cysylltwch ag Eleri Hughes, Swyddog Iaith Gymraeg ar 01248 384384m estyniad 5476 neu drwy'r ebost: eleri.hughes@wales.nhs.uk
Yn gywir

SWYDDOGION IAITH

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi
Cadwaladr

Gyfeillion

MAE'R GYFRES 'TWRW' YN Y TY' YN ÔL AR S4C!

Felly, rydym ni'n chwilio am bobl ifanc ledled Cymru sy'n haeddu parti am reswm arbennig, boed wedi gwneud rhywbeth gwerth chweil dros y gymuned, yn gwella o salwch neu'n dathlu pen-blwydd.

Ydych chi'n adnabod rhai rhwng 10 a 15 oed fyddai'n deilwng i gael gwledd gyffrous, llawn syrpreisys - yna cysylltwch 'da ni, da chi!

Ebost:
twrwynty@avantimedia.tv
neu ffoniwch ni ar 01443 688529.

Edrychwn ymlaen i glywed gennych mor fuan a phosibl.
Cofion gorau
CRIW CYNHYRCHU

CYNGERDD

gan grŵp offerynnol

PRES MÂN

yn Y Cysegr, Bethel

Nos Fercher Mai 5ed am

7.30

Tocyn: £3

Plant: £1 (wrth y drws)

Elw'r noson tuag at
welliannau i'r Capel.

RHODDION

£25: Marian, Minallt, Bro Elidir, Dinorwig, i gofio am fy unig chwaer.

£18.50: Dienw.

£20: Er cof am Beryl Wheldon Williams Morfa Bychan (Llanberis gynt), gan Derwyn, Geraint a'r Teulu; Er cof am Beryl Wheldon Williams Morfa Bychan (Llanberis gynt), gan Doreen a'r Teulu.

£15.10: Olwen Ebbrell, Coventry.

£13.50: Mrs G McCarthy, Childwell.

£10: Rene, er cof am ei rhieni, Mr a Mrs W. Wheldon Morris, 18 Rhos Rug, Llanrug; Owen Jones, Llangefni; Emrys Owen, Solihull; er cof am Mr a Mrs Humphreys, Bro Rhythallt, Llanrug.

£5: Ellen Ellis, Bethel; Mr a Mrs Dick Rowlands, 5 Bryn Golau, Waunfawr; Liam Taylor, 3 Hafod Oleu, Deiniolen; Mrs B Williams, Llanfairpwll; Mrs N Lovatt, Aberystwyth; Mrs Fouracres, Chiswick; Mrs Nancy Parry, Penygroes; Sycharth, Preswylfa, Llanberis; Geraint Roberts, Bangor, Iolo Llewelyn, Llanrug, Parch Dafydd Hughes, Dienw, Llanrug

£4.50: Gomer Davies, Tregarth.

£3.50: Ronnie Williams, Aylestone.

Gwasanaethau Garddio Gorwel

01286 650761
07773 020424

Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG

YSGOL BRYNREFAIL

BLWYDDYN 12 YN GWEITHIO!!

Peidiwch da chi â chymryd braw o ddarllen y teitl oherwydd mae blwyddyn 12 yn weithgar ofnadwy pob amser. Ond yn ystod yr wythnos o ddydd Llun 29ain Mawrth i nos Iau 1af Ebrill 2010 cawsant flas ar fyd gwaith go iawn led led Gwynedd. Gyda chefnogaeth yr athro gyrfaeodd, Mr Howyn Jones a'u tiwtoriaid yn y chweched dosbarth, fe roddwyd sialens iddynt gysylltu gyda gwahanol gyflogwyr yng Ngwynedd a threfnu gweithle i weithio ynddo dros gyfnod o wythnos. Mi wnaeth rai trefniadau ar lafar ond y rhan fwyaf yn defnyddio eu e-bost i wneud y cysylltiadau cyntaf.



Enfys Roberts yn gosod arddangosiad yn 'Babinogi'.

Ac yn wir o Bwerdy 'First Hydro' Dinorwig i feithrinfa Babinogi, yn Doc Fictoria Caernarfon. O Archifdy Gwynedd i dyrrau castell Caernarfon fe fu myfyrwyr blwyddyn 12 yn blasu byd gwaith llawn amser.

CYSTADLEUAETH BAND PRES RHANBARTHOL CYMRU


Fe gynhaliwyd cystadleuaeth Band Pres Rhanbarthol Cymru yn Neuadd Brangwyn dros benwythnos 20fed a 21ain Mawrth 2010. Bu nifer o ddisgyblion Ysgol Brynrefail yn cystadlu gyda bandiau pres Llanrug a Deiniolen ac o'r deuddeg band led led Cymru oedd yn cystadlu fe ddaeth Deiniolen yn ail a Llanrug yn bedwerydd. Y mae pawb yn Ysgol Brynrefail yn ymffrostio yn eu llwyddiant ac yn llongyfarch yn galonnog y ddau fand.

A'r oerch fwyaf disglair yn yr holl gystadleuaeth oed Daniel Taylor sydd ym mlwyddyn 12 ym Mrynrefail. Enillodd Daniel, sydd yn chwarae'r Ewffoniwm, y tîm am fod yn offerynnwr gorau'r holl gystadleuaeth - camp yn wir.

PROFIAD GWAITH OSIAN TREFOR

Dewisodd Osian Trefor Jones weithio ym myd Technoleg Gwybodaeth i flasuo sut fath o bethau fyddai angen eu trin er sicrhau bod systemau technegol ysgol neu gwmni yn gwbl effeithiol. Yn gweithio o dan gyfarwyddyd Mr Ian Pritchard, Technegydd T.G.C. Ysgol Brynrefail bu Osian yn trwsio cyfrifiaduron, gosod camerau mewnol, goruchwilio system C.C.T.V. yr Ysgol a gweithio ar rwydweithiau T.G.C., gan sicrhau bod holl systemau'r Ysgol yn gweithio'n effeithiol ar gyfer disgyblion a staff.

Gan fod pob ystafell ddysgu



yn gysylltiedig â'r rhwydwaith cyfrifiadurol cwricwlaidd sy'n galluogi mynediad i'r we, tair ystafell technoleg gwybodaeth lle leolir tri deg o gyfrifiaduron sy'n cyfrannu at y cyfanswm o

300 o gyfrifiaduron ar rwydwaith TGC yr Ysgol, i gyd a chyswllt band llydan a'r we bu Osian yn brysuro iawn trwy'r wythnos gydag efallai un llygad ar yrfa iddo'i hun ar ôl gadael

SBOTOLAU AR: SIÔN LLOYD ROBERTS



Y mae Siôn Lloyd Roberts, sydd ym mlwyddyn 9 yn Ysgol Brynrefail, yn hanu o bentref Llanberis ac yn datblygu ei ddawn fel bocsiwr o fri. Y mae eisoes wedi ennill enw da iddo'i hun a bu'n sgwrsio gyda'n gohebydd - a oedd yn ofalus iawn gyda'i gwestiynau!!

Pryd wnest ti ddechrau ar dy yrfa bocsi a sut wnest ddechrau?

Yr wyf wedi bod yn bocsi am dros dair blynedd ar ôl ymuno

gyda Clwb Bocsi Tref Caernarfon. Yr wyf yn cael fy hyfforddi yno gan Mr Ian Owen. Dim ond troi i fyny i weld sut le oedd o nes i a dwi yna byth!

Sawl gwaith yr wythnos wyt yn ymarfer a phryd gefaist dy ffeit gyntaf?

Ar hyn o bryd yr wyf yn ymarfer am dair noson yr wythnos o dan lygad Mr Ian Owen a chefais fy ffeit gyntaf yn Llai, gerllaw Wrecsam yn 2009. Enillais y ffeit ar ôl tair rownd o funud a hanner ac yr oedd y beirniaid yn unfryd. Yn wir enillais y tlws am berfformiad gorau'r noson 'Junior Champion of the Night'.

A sut mae dy yrfa wedi datblygu ers hynny?

Wel, cefais un ffeit yn Rhyl ac ennill honno ar ôl tair rownd a'r beirniaid eto'n unfryd. Ond y gorau, hyd yn hyn, yw bocsi ym Mhencampwriaeth Cymru. Cynhaliwyd y gystadleuaeth yn Aberdar, de Cymru eleni ac, er yn colli yn y ffeinal, mi wnaeth un beirniad fy newis innau ond yn anffodus dewisodd y ddau arall fy ngwrthwynebwr.

A beth am y teulu Siôn, ydyn nhw'n dy gefnogi di?

Maen nhw'n gefnogol dros ben er na fydd Mam byth yn fy ngwylio'n paffio. Mae Dad wedi gweld bob gornest.

A be am y dyfodol?

Wel, dwi am barhau gyda'r bocsi a phwy a wŷr yn y dyfodol efallai troi'n broffesiynol. Fy hoff focsiwr ydi Manny Pacquiao er nad wyf cystal â fo - eto!!!



Pryd i Bawb

Arlwyo at bob achlysur yn unrhyw leoliad
Bwffe blasus o safon



- Priodas •
- Cyfarfodydd busnes
- Bedydd/Parti/Tc angladd
- Bagged Picnic
- Bwyd yn unig neu gwasanacth llawn

Cerid Mackinnon
Ffôn: 01286 673190
Symudol: 07774 925502

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



YSGOL BRYNREFAIL

RAFFL PASG 2010 CYMDEITHAS CYFEILLION

Bu disgyblion blynyddoedd 7, 8 a 9 yn brysur iawn dros yr wythnosau diwethaf am y gorau i werthu tocynnau raffl ar ran 'Cymdeithas Cyfeillion Ysgol Brynrefail'. Gwnaethpwyd elw o £1,200 ar ôl talu'r costau, ac bydd yr arian yma yn mynd i brynu offer i'r ysgol. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

ENILLWYR

Iaf: £100: Caleb y Ci, d/o Elain Morris-Roberts (7N), Glan Llyn, Llanrug.

2il: £75: Elenid Rhys Williams (9N), Llaniau Edwen, Ffordd Bangor, Caernarfon.

3ydd: £50: Mr Neil Roberts, Penllyn, Brynrefail.

Yn ogystal roedd gwobrau ariannol i'r gwerthwyr gorau. Gwerthodd Lowri Jones, 7I, o'r Waunfawr werth £65 - a chafodd wobwr o £20. Gwerthodd Callun Ducklin, 8S, o Gaernarfon werth £52 - gwobr £15. Gwerthodd Callum Allen, 9E, o Ddeiniolen werth £28 - gwobr £10.

Peidiwch â gori ar stori!



Alun Ffred Jones
Aelod Cynulliad
Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR
01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

Genethod dan 13 Rownd Gyn-derfynol Brynrefail 4 - 2 Penweddig

Ar ddiwrnod heulog a gwyntog fe chwaraewyd y gêm ar gae'r Ysgol yn erbyn Ysgol Penweddig, Aberystwyth, a Brynrefail yn chwarae yn wynebu'r gwynt a'r haul yn yr hanner cyntaf. Ar ôl brwydro caled fe sgoriodd Lois Regan ac ar hanner amser yr oedd y sgôr yn 1-0 i Frynrefail. Ar gwynt wrth eu cefnau yn yr ail hanner sgoriodd Lois ei hail gôl cyn i Mari Gibbard ychwanegu gôl i wneud y sgôr yn 3-0. Cafodd Lois Regan ei 'hat trick' trwy sgorio pedwerydd y tîm. Fe sgoriodd Penweddig ddwy gôl hwyr i wneud y sgôr terfynol yn Ysgol Brynrefail 4 Ysgol Penweddig 2 ac Ysgol Brynrefail yn mynd drwodd i'r rownd derfynol. Ym marn pawb Mari Gibbard oedd seren y gêm.

PÊL-DROED CWPAN CYMRU



PÊL-DROED CWPAN CYMRU - ETO!



Tîm dan 16 oed



Bechgyn dan 18 - Rownd Gyn-derfynol
Brynrefail 1- 0 Dinas Brân

Bechgyn dan 16 Rownd Gyn-derfynol

Emrys ap Iwan 3 - 6 Brynrefail
Ar brynhawn 9fed o Fawrth 2010 ac yn cael ei chwarae yn Neganwy, chwaraeodd Ysgol Brynrefail eu gêm gyn-derfynol yn erbyn Emrys ap Iwan. Yn unochrog o'r dechrau datblygodd Brynrefail fwy a mwy o reolaeth dros y gêm wedi gôl Jamie McDaid o fewn y deg munud cyntaf. Dilynodd yr ail gan Gruffydd John yn sydyn er i Emrys ap Iwan sgorio i wneud y sgôr yn 1-2. Wedi hynny sgoriodd Daniel Bell i wneud yr ornest yn 1-3 ar hanner amser.

Yn gynnar yn yr ail hanner sgoriodd Jamie McDaid cyn i Emrys ap Iwan sgorio eu hail gôl i wneud y sgôr yn 2-4. Sgoriodd Daniel Bell am yr eildro i wneud y sgôr yn 2-5 cyn i'r tîm cartref sgorio eu trydydd. Seliwyd y gêm i Ysgol Brynrefail gyda gôl wych gan Gerallt Jones i wneud y sgôr terfynol yn 3-6.

Ar brynhawn 11eg Fawrth 2010 a gyda'r haul yn tywynnu ar y cae chwarae, chwaraeodd Ysgol Brynrefail eu gêm gyn-derfynol yn erbyn Dinas Bran. Ar ôl braw cynnar gyda Dinas Bran yn taro postyn yn syth o gic rydd dechreuodd Brynrefail ddatblygu mwy a mwy o reolaeth dros y gêm a phan ddaeth hanner amser rhyfedd oedd gweld sgôr o 0-0.

Cariodd y momentwm ymlaen i'r ail hanner a chyda'r pwysau'n cynyddu, cynyddodd y siawnsiau. O'r diwedd gydag ergyd nerthol o ddeunaw llath o ochr chwith i'r gôl sgoriodd Gethin Green i selio buddugoliaeth haeddiannol. Chwaraewr y gêm oedd Iwan Price a gyfranogodd yn helaeth tuag at lwyddiant y tîm.

**Angen gweithwyr i helpu gyda'r
'ECO'
Cysylltwch â'r Cadeirydd**

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PROFEDIGAETH. Daeth y newydd trist am farwolaeth Geraint George, Sŵn yr Engan ar Fawrth 30ain, yn 49 mlwydd oed. Roedd yn adnabyddus fel darlithydd mawr ei barch yn Astudiaethau'r Amgylchfyd ym Mhrifysgol Bangor ac yn ddarlledydd huawdl, llawn brwdfrydedd ar y cyfryngau mewn nifer o bynciau cysylltiedig â'i faes arbenigol.

Bu ei gyfraniad yn amhrisiadwy i nifer o gyrff cyhoeddus - Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth ac roedd yn is-gadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri.

Daeth tyrfa gref ynghyd i'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel Cysegr, Bethel, dan arweiniad y Parch Marcus Robinson gyda Lowri Roberts Williams wrth yr organ. Talwyd teyrngedau haeddiannol i Geraint gan ei gyfeillion Emyr Davies a Richard Lloyd Jones.

Mae ei ymadawid yn golled enfawr ond yn fwyaf arbennig felly ar yr aelwyd yn Sŵn yr Engan.

Mae ein cydymdeimad yn ddwys iawn fel ardal ag Ellen, ei briod a'i dair merch, Rhian, Anna a Nia, ei rieni Michael a Betty George a'i frawd Gareth o ardal Cwm Tawe, yn eu profedigaeth chwerw.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Yng nghyfarfod Ebrill y siaradwraig wadd oedd Siân Davies o Lanrug, un o aelodau Clwb Ffotograffiaeth Caernarfon. Cafwyd cyfle i weld lluniau ardderchog o fywyd gwyllt - adar ac anifeiliaid ynghyd â golygfeydd o fynyddoedd Eryri dan eira a lluniau dynnwyd ar ei hymweliad â Prague.

Diolchwyd yn fawr i Sian am lenwi'r bwlch ar fyr rybudd. Edrychir ymlaen yn awr am y Sioe Grefft a Chynnyrch yn y Ganolfan, Porthmadog, ar Fai

8fed.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD OEDFA'R PASG.

Gwasanaethwyd yn yr oedfa ar brynhawn Sul y Pasg gan y Parch Olwen Williams, Tudweiliog. Gweinyddwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd. Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y tymor nos Iau, Ebrill 22ain yn y Caban. Cadeirydd y noson oedd Gwyn Hefin Jones. Croesawyd yr aelodau yn gynnes gan edrych ymlaen am dymor llwyddiannus unwaith eto. Diolchodd i'r ysgrifennydd, Dafydd Ellis, am drefnu rhaglen mor amrywiol dros y misoedd nesaf. Wedi myfyrdod dan ei arweiniad aeth ymlaen i gyflwyno y siaradwr gwadd, sef y pensaer Dilwyn Gray Williams.

Cafwyd noson arbennig o ddiddorol yn ei gwmni yn sôn am y pensaer, John Lloyd, o Gaernarfon - gŵr nad yw wedi cael yr hysbysrwydd dyledus er ei gyfraniad neilltuol i bensaerniaeth tref Caernarfon ac adeiladau o bwys ar draws y Fenai yn ardal Dwyrân, Ynys Môn, yn hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hefyd yn enwog am bensaerniaeth pontydd, ac yn eu mysg y bont dros afon Caledffrwd ym mhentref Brynrefail.

Diolchwyd yn wresog gan nifer o'r aelodau am noson mor bleserus. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau, Mai 27ain yng nghwmni'r Parch W.R. Williams, Y Felinheli.

OEDFAON MAI

(Gwasanaethau am 5.30 yr hwyr)

9: Mr T. Alun Williams, Caernarfon

16: Mr Merfyn Jones, Caernarfon

23: Mr John H. Hughes, Llanberis

30: Parch S.O. Hughes, Hen Golwyn. Gweinyddir y Cymun

Tynnu Coes a Thynnu Deigrin

On'd yw yn rhyfeddod Bod dannedd merch yn darfod? Ond tra bo yn ei genau chwyth, Ni dderfydd byth ei thafod.

Ffraethineb, doethineb a phrofiadau bywyd yw themâu amrywiol hen benillion telyn sy'n gyfarwydd i ni i gyd. Bellach mae'r clasur o gyfrol *Hen Benillion* a gasglwyd ynghyd gan T.H. Parry-Williams ym 1940 'nôl mewn print mewn argraffiad newydd. Er mor hen yw'r hen benillion yn y gyfrol, mae eu swyn a'u synnwyr mor gyfoes a gogleisiol ag erioed.

Meddai T. Robin Chapman yn y rhagair newydd i'r gyfrol 'Achos dathlu tawel yw gweld ailgyhoeddi llyfr Cymraeg bob amser. Dynoda ffydd y

cyhoeddwr a galw gan ddarllenwyr. Heb os, bydd y rhai sydd eisoes yn gyfarwydd â *Hen Benillion* yn ymfalchio yn y ffaith fod modd i eraill rannu eu mwynhad am y tro cyntaf.

Wrth i ni heddiw chwilio am y geiriau addas, y doniolwch angenrheidiol, ac am y doethineb sy'n cynnig gair o gysur, go brin y byddai'r rhan fwyaf ohonom mor wreiddiol, mor ffraeth ac mor delynegol â'r cyndeidiau a fu wrthi yn cyfansoddi a chofio'r penillion syml sydd yn y casgliad cyfoethog hwn.

Mae *Hen Benillion* ar werth yn eich siop lyfrau leol am £8.99 neu'n uniongyrchol oddi wrth y cyhoeddwr, Gwasg Gomer ar 01559 363092 www.gomer.co.uk

Er cof am Geraint David George

Ddydd ei angladd
Ebrill 8ed. 2010



Un braw Arfon a Thawe
mud yw'r llais, amdo yw'r lle;
ar erwau mud, taro mân
seiniau'r ing Sŵn yr Engan.
Yn ein cur pwy'n mesur maint
un gŵr, un tad un Geraint.

A gofit annwyl 'Smitw
am ifanc lanc dyngodd lw
i'w hil, i'w hiaith i'w alwad
gŵr y pridd a gŵr parhad.

I'r plant daeth meistr i'w plith
athro hwyliog, athrylith,
nid chwit-chwat, rhoddi statws
byw ei ffydd mewn pwnc heb
ffws.

Hwn oedd ffrind, hysbysydd
ffraeth

daeareg a'i chadwraeth.
Denai bawb i Dan y Bwlch
yno ei olud welwch.

Yna coeth 'mhell cyn cŵn Ca'r
cennad y Galwad Cynnar.

Ei iaith rhwydd am effaith rhew
a dwli syrffed olew.
A ni'n ildio'n ucheldir
rhoi i'n gwlad gynghorion glir.

Ar sawl pwyllgor rhoi orau,
y pren ir mewn oes prinhaus.
Yno, rhoi ddoeth arweiniad
hwn yn gledd dros werth cefn
gwlad.

Styfnig fel alarch pigog
carai'r gêm y Jac o'r Gog.
Ar y bla'n dan y faner
arwain ffans y Swans i'r sêr.

Yn ei dŷ brenin o dad
di-guro led ei gariad.
Yn ein cur pwy'n mesur maint
un gŵr, un tad un Geraint.

RICHARD LLWYD JONES

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pñawn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llungopio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail

www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL-07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cyrraeddych Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL. Bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor yn cael ei gynnal Nos Lun y 10fed o Fai yn festri Capel Cysegr am 7:00yh.

CYNGERDD. Nos Fercher Mai 5ed am 7.30 cynhelir cyngerdd gan y grŵp offerynnol dawns Pres Môn yng Nghapel y Cysegr. Oedolion £3 a phlant £1.50. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH. Dymuna Ellen Ellis, Drws y Coed ddiolch i bawb yn Ysgol Bethel ac i'w chyfeillion yn y pentref am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar ei hymddeoliad diweddar. **LLONGYFARCHIADAU** - i Gwion Wyn, 4 Stad Eryri, ar ei lwyddiant ar ganu, llefaru a chwarae'r piano yn eisteddfodau Mynytho, Penrhyndeudraeth, Y Bontnewydd a'r Ffôr. Da iawn ti, dal ati.

DYMUNIADAU GORAU i'r plant sy'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llannerchaeron ddiwedd Mai, sef parti canu dan ofal Manon Gwynedd, Alaw Prys, unawd pres, ac Elen Jones, dawnsio disgo.

CLWB BRO BETHEL. Cyfarfu'r aelodau y mis yma dan lywyddiaeth y Prifardd Selwyn Griffith a chroesawyd pawb i'r cyfarfod. Er gwaetha'r tywydd anffafriol daeth nifer dda allan a chael cwmni Ifan Glyn Jones o Benygroes. Fel un a gafodd ei ddwyn i fyny yn ardal chwareli Dyffryn Nantlle bu'n siarad yn hynod o ddifyr am hiwmor y chwarelwr. Roedd ei sgwrs yn llawn hwyl a phawb yn chwerthin yn braf wrth iddo adrodd hanesion am gymeriadau diddorol. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am roi gwên ar wynebau pawb oedd yn bresennol.

Os am fynd ar y trip pentymor ac er hwyluso'r trefniadau, gofynnir i bawb ddychwel y ffurflen bwyd erbyn y cyfarfod nesaf sydd ar Mai 4ydd gyda Buddug Jones a'i chi tywys, Ivy

MERCHED Y WAWR. Mair Read, y Llywydd, a groesawodd pawb i gyfarfod mis Ebrill ac oherwydd rhesymau amlwg roedd y gŵr gwâdd yn methu bod yn bresennol. Trafodwyd nifer fawr o'r ohebiaeth oedd wedi dod i law o Aberystwyth, a hysbyswyd pawb am yr amrywiol weithgareddau yn ymwneud â'r Mudiad.

Roedd Freda Jones Williams, Swyddog Datblygu newydd y Mudiad dros ogledd-orllewin Cymru a Maldwyn Powys, wedi troi i mewn a braf oedd cael ei chwmni. Wrth iddi sgwrsio roedd yn barod iawn i rannu syniadau a rhoi cymorth i greu rhaglen amrywiol i'r canghennau. Diolchodd Mair iddi am ei chyfraniad a dymunwyd yn dda iddi yn ei swydd newydd.

Dymunwyd yn dda hefyd i Ellen Ellis ar ei hymddeoliad o Ysgol Bethel ac i Delyth, merch Edwina Morris, sydd yn cymryd rhan ym marathon Llundain cyn bo hir.

Yn ystod y cyfarfod etholwyd y canlynol yn swyddogion am y tymor nesaf: Llywydd - Rhian Hughes; Is-Lywydd - Rita Dauncey Williams; Ysgrifennydd - Margaret Druce; Is-Ysgrifennydd - Ellen Ellis; Trysorydd - Edwina Morris; Is-Drysorydd Liz Watkins ac aelodau ychwanegol ar y pwyllgor sef: Ann Lewis, Sharon Owen, Dilys Perez, Eirlys Sharpe, Eirlys Williams ac Elizabeth Evans.

CAPEL Y CYSEGR. Cynhelir

cyngerdd yn y Capel nos Fercher Mai 5ed. gan grŵp offerynnol Pres Môn. Mae'r deg sydd yn y grŵp yn aelodau o Fandiau Pres gwahanol yr ardal ac wedi dod ynghyd o dan arweinyddiaeth Hefin Evans,

Athro Cerdd Ysgol Dyffryn Ogwen, Bethesda. Tocynnau ar gael gan Swyddogion Y Cysegr am £3, ac fe gaiff plant dalu £1 wrth y drws. Bydd elw'r noson yn helpu i glirio cost ailblastro wal y capel

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

DYMUNA Liam, 3 Hafod Oleu, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a'i gymdogion am yr arian a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed yn ddiweddar.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Ar ôl seibiant oherwydd tywydd garw y gaeaf, cyfarfu'r Gymdeithas ar nos Fawrth, 6 Ebrill. Cyflwynodd Mr Brian Price y siaradwr gwadd, sef Mr Gareth Roberts, Gallt y Foel. Siaradodd Gareth am ei waith yn cynllunio a chreu 'Troedio Llwybrau Llanddeiniolen', sef map yn cynnwys hanesion y plwyf o Oes yr Iâ ac oes y Rhufeiniaid i fyny i'r presennol. Syniad gwreiddiol y Cynghorydd Len Jones oedd creu map o'r fath, a thrwy waith ymchwil manwl Gareth, mae'r map yn ein galluogi i gael pleser wrth droedio llwybrau plwyf Llanddeiniolen ac yn ein haddysgu am ein gorffennol.

Camp fawr Gareth oedd cerdded o Segontium yng Nghaernarfon i Gaer, gan ddilyn olion y ffordd Rufeinig sydd tua 75 milltir o hyd, a hyn oll ar ôl llawdriniaeth enfawr, gan godi arian i waith Ymchwil y Galon.

Noson o fwynhad oedd gwrando ar Gareth yn sôn am hanes ein plwyf. Ategwyd y diolchiadau gan Mrs Jennie Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 4 Mai, a'r siaradwr gwadd fydd Gwilym Evans yn siarad am 'Olew Morus Ifans' Croeso i bawb.

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL. Daeth nifer dda o aelodau i'r cyfarfod y mis yma a diolch am gael tywydd dipyn gwell. Cyflwynwyd ein siaradwr gan Y Parchedig John Pritchard, sef Mr Gwilym Evans, Llanberis a thestun ei sgwrs oedd 'Olew Morus Evans'.

Cyflwynodd y siaradwr hanesion difyr am ei Daid a'r hen Daid yn cychwyn y busnes olew yn Llan Ffestiniog. Y siom fwyaf yw nad yw'r olew ar gael y dyddiau yma.

Bydd Swper Pentymor y Gymdeithas ar 27 Ebrill yng Nghlwb Golff Caernarfon. Ein gŵr gwadd fydd y Parchedig Harri Parri.

CARNIFAL 2010. Mae'r trefniadau ar gyfer y Carnifal eleni yn cynyddu gyda nifer o weithgareddau wedi eu trefnu, gan gynnwys noson coroni'r Frenhines a disgo a noson yng nghwmni'r cyn bêl-droediwr rhyngwladol, John Hartson.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth, yn enwedig aelodau pwyllgor y Carnifal blaenorol am eu cyngor a'i cefnogaeth a throsglwyddiad o arian tuag at gynnal y carnifal eleni.

CYMANFA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo a Deiniolen, bnawn Sul, 23 Mai, yn y Neuadd Gymuned, Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Trefnir bws. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.
(Llun-Sadwrn)
6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan

(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



ARVONIA

COACH TOURISM cpt

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Tripiâu Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau



Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126

E-bost: info@arvoniaco.uk • Gwefan: www.arvoniaco.uk

TACSI DIOGEL AR GLICIED BOTWM

Mae cynllun blaengar newydd yn golygu fod aelodau'r cyhoedd yng Ngwynedd a Môn yn gallu cael mynediad hawdd a sydyn i gwmnïau tasci trwyddedig lleol.

Wrth fwynhau noson allan, mae'n debyg mai cael gafael ar rif ffôn cwmni tasci trwyddedig ydi un o'r pethau olaf ar eich meddwl, ond mae cynllun Cab Safe sydd wedi ei lansio gan Gyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn golygu fod modd cael gafael ar rifau perthnasol wrth anfon neges destun syml.

Gallwch chwilio am dasci wrth anfon neges destun syml gyda'r gair "CAB" at 83222. Yna, byddant yn derbyn neges yn ôl gyda rhifau tri o'r cwmnïau tasci trwyddedig agosaf.

Mae poster, cardiau a matiau cwrw yn cael eu dosbarthu ar hyd Gwynedd a Môn i rannu'r neges ac i annog aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio cerbydau trwyddedig.

Dywedodd y Cyngorydd John R Jones, sy'n arwain ar faterion trwyddedu ar Gyngor Gwynedd:

'Mae hwn yn gynllun newydd sy'n creu'r defnydd orau o'r dechnoleg fodern er mwyn sicrhau fod trigolion yn cael mynediad rhwydd a chyflym at rifau cyswllt cwmnïau tasci lleol cydnabyddedig.

'Ein nod yw annog aelodau'r cyhoedd i osgoi gyrwyr tasci ffug a sicrhau eu bod yn defnyddio cwmnïau tasci trwyddedig. Felly cofiwch i

greu defnydd o'r cynllun Cab Safe os ydych chi'n ceisio cael gafael ar gwmni tasci trwyddedig.'

Nododd y Cyngorydd Bob Parry o Gyngor Sir Ynys Môn:

'Rydym yn falch o allu cydweithio efo Cyngor Gwynedd ar y cynllun yma. Mae'n ffordd o sicrhau diogelwch y cyhoedd ar ôl mwynhau noson allan yn ogystal â lleihau'r risg fod pobl yn yfed a gyrru. Rwy'n mawr obeithio y bydd pobl yn gwneud defnydd o'r gwasanaeth newydd yma.'

Os ydych yn bryderus am dascis sydd heb eu trwyddedu yn gweithredu yng Ngwynedd, cysylltwch â thîm Trwyddedu Cyngor Gwynedd ar 01286 679923, Safonau Masnach yng Nghyngor Sir Ynys Môn ar 01248 752857 neu cysylltwch â'r heddlu ar 0845 607 1001/1002. Cofiwch, wrth ddal tasci gartref:

- Dim ond cerbydau Hacni y ceir eu stopio ar y stryd. Dylai'r cerbydau yma ddangos plât glas ar flaen ac ar gefn y car.
- Rhaid trefnu tasci preifat o flaen llaw, mae'r car yn arddangos plât melyn ar y blaen a'r cefn. Mae llun siâp hanner lleuad ar ddrws y cerbyd.

- Rhaid i bob gyrrwr trwyddedig fod â cherdyn adnabod y Cyngor yn eu meddiant.

- Gwiriwch y manylion hyn cyn mynd i mewn i'r car. Nid yw gyrrwr sydd heb drwydded wedi ei archwilio gan y Cyngor ac mae'n bosib na fydd ganddynt yr yswiriant cywir.

HEN LUN, BETHEL



Adeiladu ysgol newydd yn Bethel yn 1910. Dyma rai o'r criw fu'n gyfrifol. Enw'r hogyn bach penmelyn sy'n eistedd ar y dde yn y llun ydy Owen Thomas[Now Tom], tad Gwynfryn Thomas Llanberis, un o deulu Huw Met. Oes enwau neu luniau eraill ar gael?



Gŵyl Fai

Hwyl i'r holl deulu
Family fun for everyone

Dydd Sadwrn Mai 1af 2010 am 11yb - 4yh
Saturday 1st May 2010 at 11am - 4pm

Amrywiol stondinau, crefftwy'r
ac adloniant.
Gerddi Bryn Pistyll, Siop a
Caffi ar agor.
Cystadleuath gwisg ffansi
i blant.

Various stalls, crafts and
family entertainment.
Bryn Pistyll Gardens and
Café open.
Fancy dress competition for
children.

Mynediad / Admission
Oedolion / Adults £1.00

Am fanylion / For details Antur Waunfawr— 01286 650271
Heulwen@anturwaunfawr.org www.anturwaunfawr.org



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â Gomer Roberts
Ffôn : 01286 870462
Symudol : 07962 712368

Cymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



cysylltwch â Mantell Gwynedd

— yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com
01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfyndedig drwy Warant 3420271

Mae pobl dros 50 oed yn
ymddiried yng nghynhyrchion
a gwasanaethau
Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:
Age Concern Gwynedd a Môn
Ty Seiont, Ffordd Santes Helen
Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD
01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa



Os byddwch yn cysylltu â swyddfa Age Concern, byddwch yn ymwneud â chyrrchodoldd perodddig o Age Concern Enterprises Limited (ACE). Mae ACE wedi ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cytyngiad yswiriant. Mae'r Age Concern uchod yn elusen gofrestrddig.

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor y 6ed o Ebrill. **Gweddi.** Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

Mater arbennig. Derbyniwyd cais am gymorth ariannol gan Ieuenctid Dyffryn Ogwen ar gyfer cyhoeddi cylchgrawn. Penderfynwyd glynu at bolisi'r Cyngor i gyfrannu at fudiadau yn yr hydref yn unig

Materion o'r cofnodion

Penderfynwyd gofyn am well cefnogaeth ariannol i'r ysgolion ddarparu graean oddi fewn i gwrtil yr ysgol - llythyr i Mr Owain Owens, Adran Addysg.

Band llydan, Rhiwlas. Ateb Ieuan Wyn Jones bod Openreach a Llywodraeth y DU yn cydweithio i wella'r rhwydwaith lle mae tystiolaeth o wendid. Gellir defnyddio cyllid yr UE at hyn.

Ychwanegodd Hefin Williams y dylid ystyried, hefyd, gosod pibell Nwy i Rhiwlas yr un pryd a'r cebl cyfathrebu

Cysgodfa bws, Rhiwlas. Cyflwynodd Elspeth Mitcheson ei hadroddiad yn dilyn cyfarfod gyda Swyddogion Gwynedd. Yr awgrym oedd peidio gosod y gysgodfan ar hyn o bryd ond gwneud y sylfaen yn barod. Pwysleisiodd Hefin Williams nad yw'n cytuno â safle'r gysgodfa ar allt serth lle mae'r ffordd yn gul, bydd y gosodiad yn beryglus a di-bwrpas.

Cofebion. Dywedodd Len Jones bod angen sylw ar gofebion yn Neiniolen a chyfeiriodd Hefin Williams at addewid Gwynedd i roi sylw i'r cofebion ym Macpella.

Penderfynwyd gofyn i bob aelod baratoi rhestr o gofebion yn eu hardal erbyn y cyfarfod nesaf.

Caeau Gleision, Rhiwlas. Derbyniwyd adroddiad Hywel Williams AS ar gyflwr ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu a'r cymhlethdodau o gael perchnogion y tai i gytuno ar berchnogaeth y ffyrdd a

chyfrannu'n helaeth at eu dwyn i fyny i safon mabwysiadu.

Prifysgol Bangor. Ateb yr Athro R. Merfyn Jones yn egluro mai nid mater iddo ef yw swydd ddisgrifiad ei olynydd ond bydd yn sicrhau y bydd sylwadau'r Cyngor yn cael eu dwyn i sylw'r Pwyllgor Penodi.

Cysgodfannau Bws.

Dinorwig. Awgrymodd Len Jones efallai y dylid cael syrfewr i'w hasesu ac addawodd wneud ymholiadau yng Nghyngor Gwynedd.

Llythyr Dafydd Wyn Williams, Gwynedd, yn gofyn a oes angen cysgodfannau newydd yn yr ardal. Penderfynwyd gofyn am rai newydd yn lle'r rhai sydd mewn cyflwr drwg ym Methel (x2), Penisa'rwaun, Brynrefail a Dinorwig (x2) gan obeithio na fydd y rhai newydd mor hawdd i'w fandaleiddio.

Ffordd Winllan, Penisa'rwaun. Ateb Meirion Williams, Adran Prifffyrdd nad oes boncyff yn ochr y ffordd, danfonwyd cynllun iddo yn ystod y mis yn dangos ei union leoliad.

Mynwent Macpella, Deiniolen. Cyfeiriodd Len Jones at y gwaith arbennig o dda o osod llwybrau, ffens, codi gatiau ac atgyweirio waliau a wnaed yno yn ddiweddar - llythyr i ddiolch i Mr Alun Wyn Jones, Gwynedd.

Gohebiaethau eraill

Gwaharddiad parcio ym Methel. Derbyniwyd bwriad Cyngor Gwynedd.

Gwaharddiad parcio, Deiniolen. Derbyniwyd bwriad Gwynedd i osod llinellau melyn dros y ffordd i fynedfa newydd yr ysgol ond nid oes gwaharddiad ochr yr ysgol - llythyr i Wynedd.

Pont Fawr, Deiniolen. Dywedodd Len Jones nad oes ramp i'r anabl lle mae'r palmant yn gorffen

Polisiau Plismona'r Ffyrdd. Cyhoeddwyd cyfarfod fforwm yr heddlu yn Neuadd y Penrhyn

ar y 13eg o Fai.

Cynllunio

Derbyniwyd wyth cais yn ystod y Mis a chaniatawyd wyth gan Wynedd.

Apêl i'r Cynulliad. Cartef Nyrsio, Penisa'rwaun oherwydd bod y cais i ddefnyddio'r cartref i bobl dros 40 oed wedi ei wrthod.

Materion ychwanegol

Ffordd Osgoi Bontnewydd, dywedodd Huw P. Hughes y bydd DVD ar gael yn dangos y dewis o lwybrau. Cawn wybod pryd a lle i'w gweld.

Dywedodd Elfed Williams ei bod yn beryglus gyrru allan o gefn Ffordd Deiniol, Deiniolen, wrth ymyl y fynwent. Penderfynwyd gofyn i Wynedd a oes modd gostwng uchder wal y fynwent fel y gellir gweld i lawr y ffordd i'r dde.

Cyfeiriodd Geraint Hughes at y

bolards sydd wedi eu taro i lawr ger Awelon.

Cyfeiriodd Len Jones at gofnod Mawrth yn sôn am gael biniau baw cŵn yn Parc Padarn, Llanddeiniolen ac nid Llanberis.

Gofynnodd Hefin Williams am gael atgoffa Gwynedd eto nad yw biniau ail-gylchu Rhiwlas wedi eu dychwelyd.


Pwysleisiodd Elspeth Mitcheson bod angen gwneud cais eto i Wynedd i gyfyngu'r cyflymder i 50mya o Beran i gyfeiriad Tŷ Mawr yn enwedig o gofio'r ddamwain ofnadwy a ddigwyddodd yno'n ddiweddar.

Llwybrau.

Dywedodd Huw P. Hughes bod y clo yn dal ar y gât ger Cae Meta - llythyr i Wynedd.

Dyddiad y cyfarfod blyneddol: 4ydd o Fai 2010.

Y DDAU 'JERRY M'



CEFFYL JERRY M - Tynnwyd y llun yn Ffrainc, mwy na thebyg tua 1910.



TRÊN JERRY M - Owen Owen (Now) Hughes (tad Kyffin), Pentre Castell, ydi dreifar y trênn. Tynnwyd y llun yn y Gilfach Ddu

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



★ Gwerthwr Glo

★ Olew Gwres Canolog

i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

CLWB Y MERCHED. Mwynhaodd pawb noson o ffasiwn a cholur yn Debenhams ddiwedd mis Mawrth. Yn modelu ar y noson cafwyd Megan, Lliwen, Siân, Dawn, Linda a Bethan. Dewiswyd Siân gan y dylunydd colur i arddangos sut i wneud y defnydd gorau o'r mathau diweddaraf o golur ar y farchnad a sut i roi colur yn y ffordd mwyaf effeithiol. Bu i'r modelau, oll wedi eu harddu, fodelu'r ffasiwn haf arfaethedig mewn modd hyderus a phroffesiynol gan roddi argraff ddiamheuol o beth ddylid ei wisgo y tymor nesaf. Rhoddwyd gwobr hael gan Debenhams ar gyfer y raffl ac fe'i henillwyd gan Lliwen.

Diolchwyd i bawb am eu cyfraniad gan y Cadeirydd, Bethan Iwan, yn enwedig staff Debenhams. I gloi'r noson rhoddwyd rhwydd hynt i bawb grwydro'r siop ac i brynu fel y dymunent.

CAPEL Y GYMUNED. Trefn yr oedfaon a'r Ysgol Sul ym mis Mai fydd:

- 2: 10.00 Mr Dafydd Iwan
(gwasanaeth i'r teulu i gyd)
9: 11.00 Ysgol Sul

16: 11.00 Ysgol Sul
2.00: Gweinidog, Y Parch
Marcus Robinson.

Bydd Cyfarfod Blynnyddol yr Aelodaeth a Chynulleidfia i ddilyn.

23: 11.00 Ysgol Sul
30: Dim Ysgol Sul nac Oedfa
TYNFA MISOL. Enillwyd
Tynfa misol Cymdeithas Cae
Chwarae Caeathro yn mis Ebrill
oedd:

£40: (69) Chloe, 21 Tai
Glangwna; £25: (80) Mark a
Linda, Tŷ Newydd; £15: (07)
Margaret Hansworth, Barn
Cottage; £5: (57) Bethan Jones,
Tafarn Bryngwna.

CRONFA CYMDEITHAS Y CAE CHWARAE. Diolch i'r sawl fu'n gwirfoddoli i bacio neges siopwyr yn Morrisons cyn y Pasg ac i'r siopwyr am eu rhoddion. Mae cronfa wrth gefn y Gymdeithas wedi elwa i'r swm o £679.76. Diolch i bawb. Felly mae pob gwirfoddolwr wedi casglu tua £30 yr un.

MIRI HAF. Cynhelir y Miri Haf eleni ddydd Sadwrn, 10 Gorffennaf. Er mwyn trafod ffurf y digwyddiad eleni bydd cyfarfod i gynrychiolydd pob mudiad yn y pentref am 7.30 yr hwyr nos Iau, 13 Mai, yng Nghanolfan y Capel.

Gwobr Pencampwr Cymunedol

Mae'r rôl hanfodol mae ffermwyr yn chwarae yn eu cymunedau lleol yn cael ei gydnabod eto eleni gan NFU Cymru drwy'r Wobr Pencampwr Cymunedol. Bydd yr enillydd yn derbyn gwobr o £500 a thlws gyda'r ddau ail orau'n erbyn £100 yr un.

Mae'r Wobr, sydd yn ei ail flwyddyn eleni, wedi ei noddi gan fanc NatWest. Gwahoddir ceisiadau trwy gydol Cymru gan, neu ar ran ffarmwr, sydd yn rhoi ei amser rhydd i fyny i gyfrannu i'r gymuned leol.

Meddai Stephen James, Dirprwy Lywydd NFU Cymru;

'Amcan y gystadleuaeth yw hybu ac adnabod pwysigrwydd y rôl mae ffermwyr yn chwarae yn eu cymunedau lleol. Rydym yn awyddus i glywed hanesion ffermwyr sydd yn rhoi eu hamser rhydd i fyny i gyfrannu i'r gymuned leol. Fe all fod yn ffarmwr sydd yn rhoi ei amser rhydd i fyny i CffI neu grwpiau a mudiadau cymunedol eraill, ffarmwr sydd yn ymgysgu am wasanaethau gwell yn ei gymuned neu ffarmwr sydd yn annog ymglymiad mewn bywyd gwledig ac amaethyddiaeth.'

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau ydy dydd Gwener, 11

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt, Ffôn: 870740

CYMANFA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo a Deiniolen, bawn Sul, 23 Mai, yn y Neuadd Gymuned, Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Trefnir bws. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

DIOLCHIADAU. Dymuna Derwyn, Geraint, Carys a'r teulu, Doreen a'r teulu, a Myfi a'r teulu ddatgan eu diolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli gwraig, mam, nain, hen-nain a chwaer annwyl, Beryl Wheldon Williams (gynt o Lanberis). Diolch i Gwynfor Jones, yr Ymgymwrwr, am ei waith arbennig, ei gymorth a'i gefnogaeth ddiflino.

DIOLCH I'R YSBYTY. Ddechrau mis Ebrill ymwelodd Bert Parry, Sycharth, Llanberis, â'r Uned Gofal Dwys yn Ysbyty Gwynedd i gyflwyno rhodd ariannol i ddiolch am y gofal arbennig a dderbyniodd yno yn ystod yr wythnosau a dreuliodd yn yr Ysbyty dros fisoedd y gaeaf diwethaf. Mae'n dymuno diolch o'r newydd i holl staff yr Ysbyty a fu'n gofalu amdano, ac i Feddygfa Waunfawr am y gofal y mae yn dal i'w dderbyn. Diolch hefyd i ffrindiau, cymdogion a theulu am eu holl garedigrwydd.



Bert gydag un o'r nyrsys a fu'n gofalu amdano yn yr Uned, sef Ferdinand o Ynysoedd y Philipiniaid.

Mehefin 2010 a chyhoeddir enw'r enillydd ar ddydd Iau'r Sioe Frenhinol yn stondin NFU Cymru.

Ychwanegodd Andy Woodthorpe, Cyfarwyddwr Amaethyddiaeth Cymru banc NatWest, 'Mae NatWest yn cydnabod pwysigrwydd a gwerth ffermwyr yn eu cymunedau lleol ac rydym yn hapus i barhau i gefnogi'r gwaith da mae NFU Cymru yn

wneud i gydnabod hyn.'

Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn ceisio am y Wobr gysylltu â NFU Cymru am fwy o fanylion a ffurflen gais. Ysgrifennwch at Helen Evans, Gwobr Pencampwr Cymunedol Cymru Wledig, Tŷ Maeth, Maes y Sioe Frenhinol, Llanellwedd, Powys LD2 3TU.

Ebost: HelenEvans@nfu.org.uk. Ffôn: 01982 554200.



Blodau Lieneke

Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

Y BWTHYN Tŷ

pen y ceunant isaf

LLWYBR YR WYDDFA LLANBERIS



PEN Y CEUNANT ISAF-
BWTHYN ADEILADWYD AR WAELODION
LLWYBR YR WYDDFA (O LLANBERIS)
YN YSTOD Y 18ed. GANRIF CEWCH GROESO
ARBENNIG YMA. YN OGYSTAL A GOLYGFYDD
GWYCH DROS LLYN PLOARNA
DYFFRYN PERIS

AR AGOR 9am.- 9pm. BOB DYDD DRWY'R FLWYDDYN
DIODYDD GYDA SCON NEU DEISEN (Dim prydau o gwbl)
MAN PARCIO O FLAEN Y BWTHYN • YN ADDAS I'R ANABL

Oriel arbennig o luniau Syr Kyffin Williams
a llu o arlunwyr Cymreig eraill

(01286)872606 www.ceunant.co.uk
steven@ceunant.co.uk

CHWILOTA

TEULU JERI

Yng Nghofrestr Claddedigaethau Plwyf Llanrug yn 1833 ceir cofnod am farwolaeth Dorothy, plentyn blwydd oed i Robert Edward a foddodd, yn ôl nodyn ymyl y ddalen gan y Rheithor, y Parch Peter Bailey Williams "in a pan of milk". Enw'r cartref oedd Pentre Jerry neu Bryngwyn. Ym mlynnyddoedd cynnar y 1830'au roedd tai newydd yn cael eu hadeiladu yn ardal y Bryngwyn a Than y Coed. Ceir nifer o gyfeiriadau yng Nghofrestrau Bedydd Plwyf Llanrug at Bryngwyn y Brazier, Tai'r Brazier, Pentre'r Dŵr a Stryd y Dŵr. Ond dim ond yng nghofnod claddu y ferch fach hon y deuthum ar draws yr enw Pentre Jerry. Pwy felly oedd hwn?

Daw'r ateb yn nhraethawd William Davies, Bryngwyn; traethawd buddugol ar Hanes Llanrug yng Nghylchwil Lenyddol Cyfrinfa Glanrhyddallt o'r Temlwr Da a gynhaliwyd ddiwedd Chwefror a dechrau Mawrth 1911. Mae rhan o'r traethawd yn sôn am hen gymeriadau y plwyf, ac yn eu plith ceir rhywfaint o hanes Jeremiah Roberts "yr hwn a elwid Jerry". Yn ôl William Davies, creadur rhyfedd oedd hwn yn byw mewn tŷ yn y Bryngwyn gyda dim ond un ystafell ynddo! Tŷ Jerry oedd yr enw ar y lle, ac yr oedd ffynnon gerllaw a elwid yn Ffynnon Jerry. Dywedir fod yr hen fachgen yn arfer ymdrochi yn y ffynnon, gan ei bod yn llydan, gyda chrawiau o gerrig yn ei hamgylchynu. Erbyn 1911 roedd y ffynnon wedi ei throï yn bydew ac yn cyflenwi dŵr i ardal y Bryngwyn.

Gallai Jeremiah siarad nifer o ieithoedd, ac yr oedd yn hyddysg mewn Lladin. Yn ôl pob sôn aeth at y Parch Peter Bailey Williams i fenthyca llyfr Lladin, a chafodd hwnnw ei

synnu o glywed Jeremiah Roberts yn ei ddarllen.

Baich o eithin oedd ei wely, ac yr oedd ei gôt yn glytiau i gyd. Credai fod cythreuliaid yn ei boeni yn y nos, ac oherwydd hynny byddai'n mynd i borth yr eglwys i gysgu er mwyn cael heddwch!

Bu farw mewn lle o'r enw Ty'n y Buarth, a chladdwyd ef ym mynwent y plwyf. Hyd yn hyn methais â chael cofnod o'r gladdedigaeth, ond mae'n amlwg fod Jeremiah Roberts yn byw yn ardal y Bryngwyn yn ystod y cyfnod y bu'r Parch Peter Bailey Williams yn rheithor, sef dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Tybed felly ai ar ôl y cymeriad hwn y galwyd trigolion Llanrug yn "Deulu Jeri"? Creaduriaid od iawn o edrych ar un agwedd o'i gymeriad, ond pobl glyfar hefyd o edrych ar yr ochr arall. Camp a rhemp efallai?

Bydd angen mwy o ymchwili ddarganfod y ffeithiau cywir am y cymeriad hynod hwn.

Teulu Henlôn, Deiniolen

Daeth gwybodaeth am y teulu hwn fel y daeth yr 'Eco' o'r wasg bron, a llun i ganlyn. Llawer o ddiolch i Mrs Nan Owen, Llanberis, am ymateb mor gyflym. Mae'r llun yn dangos aelodau o'r teulu - pedair cenhedlaeth. Ym mlaen y llun mae William David Jones, ei wraig Catherine Mary, a'u merch Jennie Eurwen. Y tu cefn iddynt mae eu rhieni a'u rhieni hwythau.

Roedd William David Jones yn frawd i Thomas David Jones (sef taid Kelvin Jones a oedd yn holi yn y rhifyn diwethaf), ac i Mary Jones a fu'n cadw'r siop.

Yn ôl y wybodaeth a gefais, symudodd y teulu o Henlôn i fyw i Knockin, Clwt y Bont.



Teulu Henlôn

Hyd yn hyn does neb wedi cysylltu gyda gwybodaeth bendant ynglŷn â Mary Jones. Mae amryw yn cofio'r siop, ond nid ar agor. Eraill â brith gof am Mary Jones. Felly, mae angen crafu'r cof, chwi drigolion a chyn-drigolion Deiniolen!

Tafarndai'r Fro

Rhaid aros yn Neiniolen, gan i mi dderbyn llythyr diddorol yn llawn gwybodaeth am dafarnau'r pentref gan Owen Jones, Llangefni. Roedd y diweddar Morris D. Jones, Llanrug, yn ewythr iddo, ac ysgrifennodd beth o hanes tafarnau Deiniolen yn *Yr Herald Cymraeg*.

Dyma'r wybodaeth a gefais gan Mr Owen Jones: ar yr ochr ogleddol o'r Stryd Fawr, ac ychydig lathenni o Gapel Ebenezer roedd tafarn o'r enw Union Inn. Y drws nesaf i'r Central Stores roedd tafarn Sain y Delyn, a ble mae Manchester House ar y Stryd Fawr, roedd tafarn y Red Lion. Tafarn y Drum oedd yn Gwalia House.

Ar ochr arall y ffordd roedd y Faenol Arms, y Wellington a'r Bull. Yr ochr isaf i'r Stryd Fawr ar safle'r Coparet roedd tafarn y Prince of Wales. Allan o'r wyth tafarn a enwyd, dim ond un sydd ar ôl bellach. A rhaid cofio fod pedair tafarn yng Nghlwt y Bont hefyd, a hynny gwa hanner milltir i ffwrdd.

Bu ffrwgwd rhwng dau o gwsmeriaid yr Union Inn un noson, ac aeth yn ysgarmes. Trawyd un o'r ymladdwyr i'r llawr gan achosi anaf angheuol iddo. Mr W. Griffiths, Caeau Uchaf, oedd perchennog y dafarn ond ei fod yn ei gosod ar rent i ŵr arall. Pan ddaeth yr hanes am y gwyffas i'w glustiau, rhoddodd orchymyn i gau'r dafarn, a dyna, yn ôl pob sôn fu diwedd yr Union. Gan W. Griffiths, Caeau Uchaf, y rhoddwyd y tir i adeiladu Capel Ebenezer.

Richard Griffiths oedd yn cadw'r Red Lion, a phenderfynodd newid ffrynt y tŷ a'i lunio ar ddull capel Pabyddol gyda wyneb cloc ar ei ganol. Nid oedd hyn wrth fodd Ynadon Caernarfon, a chafodd Richard Griffiths orchymyn i ymddangos ger eu bron ym mis Medi 1873. Diddymwyd ei drwydded!

Dyna'r wybodaeth a gefais o Langeftni, a llawer o ddiolch am yr ymateb.

Cefais alwad ffôn hefyd gan Bryn Williams, Cwm y Glo, yn cyfeirio at lyfr o'r enw *Cottages of Wales* ble roedd llun o Hen Groeslon, Bryngwyn, a'r disgrifiad yn nodi fod bragdy yno. Gwn fod tafarn wedi bod yn ardal y Bryngwyn cyn codi'r ffordd bost o Ben y Greuor i Gwm y Glo, a disodli'r hen lôn a

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

AUDI	SEAT	PORSCHE	VOLKSWAGEN
DIESEL	PETROL	CHWISTRELLIAD	ARBENIGWYR

•Cymhwyster•
BOSCH
i roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiau sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stâd Ciblyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

SKODA	BMW	PEUGEOT	FIAT
BRÉCS	CLUTCHES TYRBO	ABS	ADVANCE
AIR CON GWASANAETH BATRIS			
VOLVO	MERCEDES	SAAB	

MEWNFORIO YR ALMAEN UNIONI OLWYNION CAM BELTS TRYDANOL SWEDEN

ddringai dros y Clegir i Lanberis. Roedd llawer o'r hen dafarn dai hyn yn bragu eu cwrw eu hunain. Unwaith eto, bydd angen mwy o waith ymchwil i gael y ffeithiau i gyd. Dyna her felly i rywrai o bentrefi eraill y fro i gasglu enwau eu tafarnau.

Arfbais Castell Bryn Bras

Yn ôl i ardal y Bryngwyn i orffen, a diolch i Owen Griffith, Llanrug, am roi catalog D.J. Williams, Brunswick Iron Works, Caernarfon, i mi. Teitl y catalog yw *Art and Antiquity*, ac ynddo ceir lluniau o'r holl waith haearn celfydd a gynhyrwyd gan y gwaith yng Nghaernarfon.

Mae un dudalen gyfan yn dangos y bwa a'r tŵr ar Gastell Bryn Bras. Cwmni Brunswick fu'n gyfrifol am yr arfbais sy'n hongian ar y bwa a hefyd am y lamp ar gopa'r tŵr.



O dan y llun ceir copi o lythyr gan D. Elliott Alves, perchennog Bryn Bras ar y pryd, yn canmol y gwaith cywrain. Mae'r llythyr wedi ei ddyddio y pumed ar hugain o Fehefin 1925: "...I consider the work you have carried out for me, both in design and workmanship, is all that could be desired. I am very pleased with the lamp and Coat of Arms, and consider them as being



particularly attractive ornaments to the Castle."

Bellach, dros bedwar ugain mlynedd wedi eu gosod ar y Castell, mae'r arfbais ar y bwa yn dioddef o effeithiau'r tywydd, a phrin y gellir gweld y manylder a ddangosir yn y llun ar y dudalen hon.

Dau destun o ddwy ardal o'r fro y tro hwn, a llawer o ddiolch i

bawb am ymateb prydlon a gwerthfawr. Gobeithio y cawn fwy o oleuni ar wahanol agweddau o hanes y fro yn y rhifyn nesaf.

Cofiwch anfon unrhyw ymholiad neu wybodaeth i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

**Stôf Draddodiadol neu FODERN
i gynhesu eich tŷ**



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Y SAMARIAID
(01248) 674985

Bwganod

Bu oes o dlodi – pan âi dyn i'w waith, ef neu'i blant i'r ydfaes i ddychryn brain. Ymresymodd, tra'n gwarchod cwysi maith... Rhoes gôt, het a rwdan – ar ungoes fain yn groeshoeliad brwnt, breichiau blêr ar led i fygwth fflyd o ladron du a llwyd i'r maes gael llonydd, ffrwyth sylw a chred 'rôl gwasgar had y gwanwyn a chaur glwyd.

Newid wnaeth technoleg 'r hen ddulliau rhad, yn lle y carpiog rhacs, caed bwgan gwn, a phob hyn a hyn taniai dros y wlad nes chwalu'n drwst sguthanod boldew crwn.

Ond cynefinodd rhain – heb gilio draw difa wna'r giwaid llwyd – heb unrhyw fraw.

NORMAN CLOSS, (Fach Wen)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol

2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch
yswariant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIU

**RHOSTIO
MOCHYN**
AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol

* Partiön rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON
LLANRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

Ffôn symudol: 07798 718188

Gwefan: www.ydyncig.co.uk

GWASANAETH GOFAL CARTREF
Caredig cyf

GOFALU AM EIN CYMUNEDAU

• ASESU MEWNOL A CHYNLLUN GOFAL

• GOFAL PERSONOL-BATHIO

• CYMORTH I GODI A MYND I'R GWELU

• EISTEDD YN YSTOD Y DYDD
A GYDA'R NOS

• GLANHAU • SIOPA • COGINIO • OWTIN

• CEFNOGI POBL

• CYSYLLTU A GWASANAETHAU
ARBENIGOL

A ydych yn hoffi gweithio a phobl neu ffansi gyrfa newydd?

* Mae Caredig Cyf yn awyddus i gyflogi pobl lleol i weithio gyda'n cwmni. Mae hyfforddiant a chefnogaeth trwyadl ar gael. Rydym yn rewrto yn gyson fel mae'r cwmni yn ehangu ac angen gweithwyr i weithio unai rhan amser, amser llawn neu gyda'r nos. Am fanylion pellach cysylltwch a-

Iola neu Ellis Wyn Jones ar-

Bangor 01248 672622 • Llun i Gwener • Oriau'r Swyddfa 9-5pm.

UNED F3 • INTEC • Ffordd y Parc • Parc Menai • Gwynedd LL57 4FG

FFON-01248 672622 • FFACS- 01248 672601

EBOST- post@caredig.com

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

PLAID CYMRU. Enillwyr Clwb Cant mis Ebrill oedd: 1af: Phyllis Elis; 2ail: Valmai Owen. DIOLCHIADAU. Dymuna Rene Williams, 18 Rhos Rug, ddiolch yn arw i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd arbennig ar 29 Mawrth.

Diolch arbennig i Gareth, Iona, Bethan a Glyn a'r ddwy wyres fach am y dathliadau a ddarparwyd ar ei chyfer. Roedd wedi mwynhau yn arw. Mae ei diolch yn fawr hefyd i Delyth a staff y Foelas am eu caredigrwydd hwythau. Diolch yn fawr iawn.

BRYSHIWCH WELLA Mrs Katie Davies, 6 Hafan Elan, Mrs Naomi Griffiths, Hafan Elan, Mrs Megan Williams, Ffordd yr Orsaf. Dymuniadau gorau i'r tair ohonoch. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

LLYWELYN. Dymuna Iolo ac Emily, priod a chwaer y ddiweddar Olwen, (Non) ddiolch yn gynnes iawn i bawb a fu'n cydymdeimlo â hwy yn eu profedigaeth, trwy ymweld. trwy ffonio, trwy lythyrau a chardiau. Ymddiheuir nad oes modd eu hateb yn unigol oherwydd eu nifer.

Dymunant hefyd ddiolch yn diffuant iawn am y gofal gofalus a thyner a gafodd gydol ei gwaeledd hir, gan aelodau Meddygfa Stryd y Farchnad, Caernarfon yn feddygon, gweinyddesau a staff, i feddygon, gweinyddesau a staff wardiau Tryfan, Glyder a Hebog, Ysbyty Gwynedd, i Ofalwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Gwynedd, a Chwmni Cymorth Llaw, ac i Mrs. Jean Jones.

Dymunant ddiolch i'r Parchedig Marcus W. Robinson am ei gymorth yn arbennig yn ystod ei dyddiau olaf, ac am ei wasanaeth

ef a'r Parchedig Dafydd Hughes, ddydd yr angladd, yn y ty, ac yna yn yr Amlogfa.

Diolchir hefyd i swyddogion Capel y Rhos am gael defnyddio'r Festri, i Mrs. Cerid McKinnon a'i staff am baratoi lluniaeth, ac i Dylan Griffith, yr ymgwymerwr, am ei drefniadau urddasol a thrylwyr.

Derbyniwyd y swm anrhydeddus iawn o £1,900 er cof am Olwen ac fe'i rhennir yn gyfartal Rhwng Mudiad Ysgolion Meithrin, ac Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

DIOLCH. Dymuna Maureen, 14 Bryn Moelyn, ddiolch yn fawr am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 60 oed.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr y Clwb 100 am fis Mawrth oedd: £20: Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa; £7: Mrs M. Roberts, 7 Afon Rhos; £5: I. Williams, 35 Nant y Glyn.

PROFEDIGAETH. Dymunwn estyn ein cydymdeimlad diffuant at Nan a Siôn Humphreys, Siwan, Gwennan a Guto, Siân a Tony a Ben, Dylan a Tomos, Mathew, Betsan ac Eban yn eu profedigaeth fawr ar farwolaeth un arbennig iawn iddynt oll, sef Mrs Gwyneth Boyer, Caernarfon gynt. Hefyd ei brawd ffyddlon, Gwilym Owen.

DIOLCH. Dymuna Siân a Nan a'u teuluoedd ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen-nain arbennig iawn.

Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r tŷ a'r holl roddion hael tuag at Ymchwil Cancr y Fron. Diolch arbennig i staff Plas Pengwaith, Llanberis, am eu gofal caredig a thyner ohoni yn ystod y

blynyddoedd diwethaf.

Diolch arbennig hefyd i Dr Huw Roberts a Staff Meddygfa Waunfawr am eu gofal diflino. Diolch i'r Parchedig Ronald Williams am y gwasanaeth coffa hyfryd a'i fugeilio caredig. Diolch i Gyfarwyddwyr Angladdau E.W. Pritchard, Llanberis, ac yn arbennig i Gwynfor Jones am y trefniadau tawel a gofalus.

Diolch o galon i chi i gyd. YSGOL GYNRADD. Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth Gymnasteg yn ddiweddar, a diolch i Miss Catrin Jones am yr hyfforddiant.

Cawsom nifer o lwyddiannau yn Eisteddfod Sir yr Urdd eleni, a bydd y parti Dawnsio Gwerin dan 12 oed yn mynd ymlaen i'r Eisteddfod Genedlaethol. Hefyd bydd Leusa Gwenllian Brown, Bl.3, a'i brawd Tomi, Bl.1, yn cystadlu yn y genedlaethol, a Math Roberts, Bl. 6, ar y delyn. Dymunwn bob hwyl iddynt i gyd.

Llongyfarchiadau calonnog hefyd i'r disgyblion a fu'n cystadlu ar y cystadlaethau Celf a Chrefft - Gethin Wyn, Bl.5, Siôn Eifion Land, Bl.5, Osian Eifion Land, Bl.2, Teleri Jones, Bl.4, a Lleucu Brookes, Bl.5.

Cafodd Osian Eifion Land yr ail wobwr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd eleni am ei waith Lluniadu 2D. Da iawn ti Osian.

Bydd Kieran Forest yn cynrychioli Cymru mewn cystadleuaeth Ddringo a gynhelir yn yr Alban. Dymunwn bob hwyl iddo.

Diolch i'r rhieni a'r plant a fu'n helpu i bacio yn siop Morrisons yn ystod gwyliau'r Pasg i godi arian tuag at deithio i Lannerchaeron a diolch i Mr Aled Gibbard am drefnu.

Bu Math Roberts yn cystadlu yn y gystadleuaeth Gŵyl Delynau a gynhaliwyd yn Galeri. Cafodd hwyl dda iawn arni a llongyfarchiadau mawr iddo.

Llongyfarchiadau i Kelly a'r

teulu. Mae hi wedi rhoi genedigaeth i fachgen bach, brawd i Callum a Cory. Dymunwn yn dda iddynt fel teulu.

Bu Blwyddyn 0 yn ymweld â'r Orsaf Dân a meddygfa'r Milfeddyg yn ddiweddar. Bu'n brofiad cyffrous iawn iddynt.

YMCHWILIO I'CH COEDEN DEULU'. Cynhelir cwrs diwrnod **AM DDIM** ar sut i ymchwilio i hañes eich teulu. Trefnir y cwrs gan DEUDRAETH CYF a chaiff ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfa Gymdeithasol Cymru fel rhan o Wyl Ddysgu Gwynedd Wythnos Addysg i Oedolion. Fe'i cynhelir yn Y Sefydliad Coffa, Llanrug, ar ddydd Mercher, Mai 19eg, rhwng 10a.m. - 3p.m. Rhennir y diwrnod i ddwy ran, sef yn y bore fe fydd cyflwyniad gan Mrs Audrey Jones, Llangefni, ar sut i gychwyn eich ymchwil; fe fydd ail ran o'r diwrnod yn ymwneud â defnyddio'r we i chwilio am wybodaeth a chreu coeden deulu ar-lein gyda Mr Bob Thomas o Bwllheli.

Mae'n angenrheidiol fod gennych brofiad ar y cyfrifiadur cyn mynychu'r cwrs. Am rhagor o fanylion neu ar gyfer cofrestru cysylltwch â Dawn Thomas rhif ffôn 01766 771795 neu ar yr e-bost dawn.thomas@deudraeth.net.

Llanrug

CAPEL Y RHOS

Oedfaon mis Mai am 10 o'r gloch

2: Parch. Marcus W Robinson a gweinyddir y Cymun.

9: Parch. Harri Parri


16: Parch. Marcus W Robinson

23: Gwasanaeth y Pentecost dan ofal Ieuencid Lleol

30: Parch. Elwyn Jones

MERCHED Y WAWR.

Estynnwyd croeso twymgalon i bawb gan y Llywydd, Margaret Parry, a chychwynwyd y noson drwy ganu Cân Merched y Wawr gyda Megan yn cyfeilio.



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Cydymdeimlwyd yn ddwys iawn â Nan a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli Mam, Nain a hen Nain addfwyn. Roedd pawb yn hynod falch o weld Phyllis yn bresennol wedi'i llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir gwellhad buan i Jean wedi iddi dorri'i braich. Llongyfarchwyd Menna ar ddod yn Nain unwaith yn rhagor. Ganwyd merch fach, Esther Jon, i Ffion a'i gŵr, Bedwyr. Gobeithio fod Menna hithau yn gwella.

Bydd rhai o aelodau'r gangen yn mynd i Ysgol Friars i fwynhau Mwyniant Mai ar 8 Mai. Cynhelir Gŵyl Haf y Mudiad ar 15 Mai yn Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth. Ar 28 Mai cynhelir Noson Gelf a Chrefft yn Neuadd Bethel. Bydd Pwyllgor yr Anabl yn cynnal Bore Coffi ar 11 Mehefin. Tocynnau yn £1 yr un.

Croesawyd ffrind i nifer o'r aelodau i adrodd ei hanes yn treulio gwyliau bythgofiadwy gyda'i merch yng ngwlad codiad yr haul, Siapan. Wedi oriau o bendroni bu iddi hi a'i gŵr benderfynu mynd ar yr antur fawr o 12 awr o drafaelio a dyna un o'r penderfyniadau mwyaf gwerthfawr yn eu bywyd. Wedi cyrraedd, buan iawn y darganfuont y gwahaniaeth yn eu diwylliant, eu traddodiadau ac, yn arbennig, yr iaith, a'r iaith ysgrifenedig tuag at i lawr.

Ond yr hyn oedd yn sefyll allan iddynt oedd y glanweithdra – dim llwchyn yn unman – y palmentydd a'r strydoedd yn hollol ddi-sbwriel. Roedd eu hymroddiad a'u hymlyniad i'w crefydd mor gadarn.

Yn amlwg, roedd 'Gorau arf, arf dysg' yn hollbwysig iddynt ac roedd pwysau mawr ar y plant i lwyddo ym myd addysg. Roedd y bobl yno yn hynod groesawgar ac fe gawsant gyfle i gymdeithasu a mwynhau seremoni te – sef yfed te gwyrdd – wedi'i gymysgu mewn dysgl a'i lowcio ar un llwnc.

Roedd y coed ceirios ar eu gorau ac yn rhyfeddod i edrych arnynt. Fe fwynhaodd pawb y sleidiau gwyh a'r hanes difyr am wyliau bythgofiadwy gyda'u merch mewn pentref gwledig, cyfeillgar, byrlymus a thu hwnt o lân.

Er bod Siapan efallai yn ddieithr i rai, o gofio Hiroshima a Nagasaki, y mae teimlad o bryder yn hofran o hyd – ofn ymosodiad niwclear o Korea. ond, yn ôl ein gwestai, bydd y profiad o ymweld â'u merch yn aros am byth yn y cof ac yn un o'r penderfyniadau dewraf a'r gorau a wnaethpwyd. Y mae llun enwog o'r wlad ganddynt ar y mur i'w hatgoffa am eu gwyliau paradwysaidd.

Diolchwyd iddi gan Margaret Parry am ein swyno ninnau gyda

phrydferthwch a glanweithdra gwlad Codiad yr Haul.

Diolchir i Bethanne, Pat a Julie am baratoi y baned a llongyfarchiadau i Megan Jones ar ennill y raffl.

Cofiwch, bydd cyfarfod Mai yn cychwyn am 7.00 o'r gloch ar 11 Mai, gyda'r Cyfarfod Blynnyddol – i'w ddilyn gyda sgwrs gan Mari Emlyn.

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

YSGOL GYNRADD. Daeth Mrs. Dee Edwards MBE i'r ysgol i drafod ymddygiad anghymdeithasol ac ymosodol gyda'r plant. Mae Dee wedi gweithio trwy'r wlad yn y maes a braf oedd clywed ei chanmoliaeth o ddisgyblion yr ysgol a'u hymagwedd hynod aeddfed wrth drafod.

Unwaith eto roedd Cyfeillion yr ysgol wedi bod yn brysur yn trefnu ein cystadleuaeth addurno hetiau, wyau a chardiau Pasg. Roedd yr arddangosfa yn werth ei gweld a diolch i'r rhieni ffyddlon am drefnu paned i bawb ar ddiwedd y prynhawn.

DIOLCH i Brifathro yr ysgol, Mr Garem Jackson, yr athrawesau a'r mamau ac yn arbennig i'r plant am ofalu am blygu rhifyn Ebrill o'r Eco. Dyma'r ail dro iddynt ymgymryd â'r gwaith. Diolch yn fawr i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Mr Hywel Williams, Nant Forgan

ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 mlwydd oed.


CYMANFA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo a Deiniolen, bnawn Sul, 23 Mai, yn y Neuadd Gymuned, Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Trefnir bws. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

SMALA
www.smala.net

cardiau busnes
taflenni
logos
poster
gwefannau
llyfrau
rhaglenni



01286 660 364
07887 654 251



Plaid

HYWEL WILLIAMS

Eich Aelod Seneddol ers 2001

Ymgeisydd Plaid Cymru yn Etholiad Cyffredinol 2010

LLAIS CRYF PROFIADOL I ETHOLAETH ARFON

www.hywelwilliams.plaidcymru.org

hywel.williams@plaidcymru.org

01286 672510

Hyrwyddwyd gan John Gwynedd Jones ar ran Hywel Williams, Plaid Cymru, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YSGOL GYMUNED

Rydym fel ysgol yn ymfalchio yn llwyddiant Mrs Sharon Ray. Mae Mrs Ray wedi dod i'r brig fel un o dair o athrawon newydd Gymhwysu gorau Cymru yng ngwobrau addysg 'The Teaching Awards'. Rydym yn dymuno y gorau iddi yn y cam nesaf. Pob lwc, Mrs Ray.

Llongyfarchiadau i Mrs Carol Jones ar ddod yn Nain am y trydydd tro. Ganwyd merch fach, Megan Ebrill i Rhian a Darren.

CRONFA PENSIYNWYR
PENISARWAUN. Enillydd mis Mawrth oedd Mrs Janice Jones, Tyddyn Perthi, gyda'r rhif 24. Llongyfarchiadau!

LLONGYFARCHIADAU i Rhian a Darren, 'Elidir' ar enedigaeth merch fach, Megan Ebrill, chwaer fach i Guto.

DYMUNWN wellhad buan i Phill, 8 Bryn Tirion sydd wedi bod yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

YSGOL SUL BOSRA. Croesawyd pawb yn ôl wedi seibiant dros Wyl y Pasg. Mae amser byrlymus ar y gweill gyda Chymanfa'r Annibynwyr ar bnawn Sul, 23 Mai yn y Neuadd Gymuned a Chymanfa'r Methodistiaid ar 20 Mehefin, i'w chynnal hefyd yn y Neuadd Gymuned am 2.00 o'r gloch.

Llongyferchir Mrs Nansi Jones, Meillionydd, Organyddes y capel, ar ei phen-blwydd arbennig ac anfonir cofion arbennig ati gan aelodau'r Ysgol Sul ac aelodau'r Oedfa Undebol. Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elen George, Rhian, Anna a Nia yn eu profedigaeth lem. Y mae Nia yn aelod ffyddlon a gwerthfawr o'r Ysgol Sul.

PWYLLGOR NEUADD. Tynnwyd Clwb Cant a'r enillwyr lwcus oedd: Briain Jones, Perthi

a Nia Oliver, Gors.

Dymunir diolch o galon i Glesni a'i ffrindiau am ofalu am y Disgo Pasg gan sicrhau noson hynod lwyddiannus. Diolch hefyd i bawb a gefnogodd mewn unrhyw fodd.

Y gweithgaredd nesaf fydd 'Miri Mai' ar Nos Iau, 20 Mai, gyda stondinau, gemau, raffl a thombola. Dewch i'n cefnogi.

GWELLHAD. Ein cofion cynhesaf at bawb ohonoch sy'n sâl yn y pentref a da deall fod Phyllis, Rhosfair, yn gwella'n dda wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Rydym yn dymuno gwellhad buan hefyd i Jean Roberts, wedi iddi syrthio a thorri ei braich yn ddiweddar.

PWYLLGOR EISTEDDFOD BENTREF. Daeth colled enfawr i Frynrefail, Penisarwaun, Bro'r Eco a Chymru gyfan ym marwolaeth y ffrind a'r cymwynaswr, Geraint George, Sŵn yr Engan. Ers sawl blwyddyn bellach ef a gynhaliai ddiddordeb y bobl ifanc ar noson Eisteddfod y Pentref drwy gynnal Cwis bywiog, diddorol ac addysgiadol i lond llwyfan ohonynt. Byddai wedi paratoi cwestiynau ar bob maes a dyma uchafbwynt y noson i'n pobl ifanc. Dyma golled amhrisiadwy eto eleni i'r Eisteddfod ac yn sicr bydd bwlch enfawr ar ei ôl. Dymunir cydnabod ei gyfraniad a gwelir ei golli pan gynhelir yr Eisteddfod eleni.

Cydymdeimlir yn ddwfn iawn ag Elen, ei wraig, a'r genod, Rhian, Anna a Nia a'r teulu oll.

COLLED. Yn dawel yn Ysbyty Eryri, Caernarfon, o 4 Llys y Gwynt, bu farw Arvon Jones, cymar Jack a merch annwyl y ddiweddar Miriam.

Cynhaliwyd y gwasanaeth

yng Nghapel Bosra ddydd Gwener, 23 Ebrill, ac fe'i rhoddwyd i orffwys ym mynwent Santes Helen. Ein cydymdeimlad llwyrfa'r teulu oll.

ADREF. Braf oedd clywed fod Ceirion Williams, Careb, 8 Llys y Gwynt, wedi cyrraedd adref yn ôl yn saff wedi tymor yn Afghanistan.

CYNGERDD ER BUDD HAITI. Nos Sadwrn, 10 Ebrill, ar aelwyd groesawus Cae Eboni, mwynhawyd cyngerdd ardderchog gan ddisgyblion cerdd Carys Jones. Daeth nifer fawr o rieni a neiniau a theidiau a ffrindiau yno i fwynhau'r arlwy o ddatganiadau piano a chân. Rhyfeddwyd pawb wrth glywed Guto yn canu'r gân, 'Tref Porthmadog' ac yn cofio'r holl benillion.

Mwynhawyd datganiad Catrin Williams o Valse Lente, Vaughan Williams, a'i llais hyfryd wrth ganu cerdd dant i gofio T. Llew Jones.

Dilynwyd hyn gyda Cai Morgan, ŵyr i Carys ac Arwel yn chwarae 'Gavot' - Duncombe a Never Vex a Tyrranosaurus Rex. Edmygydd datganiad Elli Griffith o Valse Lente a Sonatina gan Kabelevsky. Fe fwynhaodd Morgan Jones chwarae'r darnau 'Llantumno' gan Vivaldi a Never Vex a Tyrranosaurus Rex.

Braf gweld cymaint o fechgyn yn cymryd cymaint o ddiddordeb yn eu cerddoriaeth a dyna welwyd gan Tomos Morgan, ŵyr arall i Carys ac Arwel, wrth iddo fwynhau chwarae Rondo gan Bertini a Mozzie gan Elissa Milne.

Cafwyd egwyl fechan ac fe fwynhaodd y plant a'r oedolion y caws a'r gwin a baratowyd gan Carys. Roedd pawb yn awyddus i fwynhau'r ail ran o'r cyngerdd. Allegro Grraziato gan Biehl gafwyd gan Tomos Parry, Waunfawr, ac roedd gwên fawr ar ei wyneb, yn amlwg wedi mwynhau y profiad o chwarae o flaen llond ystafell o bobl. 'Wonderful Night' gan Eric Clapton a 'With Drie' Christopher Norton,

chwaraeodd Gwenllian Jones a hynny'n soniarus iawn.

Gwerthfawrogydd cyfraniad arbennig Glesni Parry o Vonfremdem Landern und Menshen gan Schumann ac 'In the Groove' gan Mike Cornick. Fel diweddglo gwyh i'r holl berfformio disgybledig rhyfeddwyd at rediad cyflym bysedd Tomos Parry, Llanberis, wrth iddo chwarae Grande Polonaise - Chopin. Llwyddodd i gyfareddu pawb gyda'i ddatganiad a hynny heb fath o gopi. Bu i'r disgyblion eraill, o gael y profiad o wyllo a gwrando ar Tomos, dderbyn hwb fawr i fynnu ymlafnio i gyrraedd ei safon aruchel ef rhyw ddydd.

Diolchodd Carys i bob un ohonynt am eu datganiadau ac am eu hymroddiad. Yn sicr mae diolch mawr i Carys am eu hyfforddi a'u hannog i ddyfalbarhau.

Yn anochel, ni allai Lois, Anest na Magi fod yn bresennol ar y noson.

Cyfrannwyd y swm enfawr o £200 ar y noson i Ann Ifans i'w gyflwyno tuag at Apêl Haiti Achub y Plant drwy law Eurgain Haf, Swyddog Cyfryngau. Mae gan yr Elusen bresenoldeb yn Haiti ers dros chwarter canrif ac mae'r rhaglen yno yn cyflenwi cymorth yn y meysydd iechyd, addysg ac amddiffyn i'r plant mwyaf bregus. Bydd cyfraniad y cyngerdd felly yn hanfodol bwysig i allu parhau i helpu plant a'u rhieni wedi'r daeargryn. Diolchir i'r plant a'r bobl ifanc a'u hyfforddwraig am fod mor barod i helpu plant llai ffodus na hwy.

ARHOLIADAU. Dymunir pob dymuniad da i chwi sy'n sefyll yr amrywiol arholiadau yn ystod yr wythnosau nesaf. Gwnewch eich gorau ac yna ymlaciwch.

CYMANFA. Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr Cylch Cwm y Glo a Deiniolen, bnawn Sul, 23 Mai, yn y Neuadd Gymuned, Penisarwaun am 2.00 o'r gloch. Trefnir bws. Gwneir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Taer erfynnir am eich cefnogaeth.

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: 870605

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

**POSH
PAWS**

TACLUSO CWN
Busnes Newydd Lleol

**PRYNHAWNIAU neu
NOSWEITHIAU 4-10**

DYDD SUL 8YB-4YP
Gwasanaeth Casglu a Danfon

Ty'n Llan Uchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07565791010

ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

Phillip Foulkes

**CONTRACTIWR
PLASTRO**

**Mewnol • Allanol
Drylining**

Plastfyrdio Yn Ei Le

**Ymgynghori Ac
Amcangyfrif Am ddim**

**PENCAMPWR
PRYDAIN**

2009

Enillydd Dosbarth
Plastrwr a
Chyffredinol

Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

O SLAMBAR SELWYN

MERCHED Y WAWR. Mawrth 9fed, aeth llond bws o aelodau i ddathlu Gŵyl Ein Nawddsant yn Y Dafod, Y Fic, Llithfaen. Roedd dewis o ddau gwrs neu dri ac yn amlwg roedd pawb wedi'u plesio gyda'r arlwy ac yn gwerthfawrogi'r dewisiadau Cymreig ar gyfer yr achlysur. Diolchwyd i Hefina a Tomos am y croeso twymgalon a'r pryd amheuthun.

Yna cafwyd amser i ymlacio a mwynhau eitemau Cymreig eu naws gan aelodau Teulu'r Hafod, sef Dafydd Roberts a'i efaill, Ann Roberts, a merch Dafydd, sef Elen, sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Y gyfeilyddes oedd Rhian Jones, Efailnewydd.

Mwynhawyd amrywiaeth o ddatganiadau gyda Cymru Fach, cân werin 'Mil Harddach Wyt', deuawd gan Dafydd ac Ann - Benedictus, Robat Arwyn. A ninnau yn dathlu Gŵyl Ddewi, beth yn well na datganiad gwladgarol 'Yr Ornest' gan Dafydd. Gwir y geiriau 'Does unman yn debyg i gartref' - ac roedd pawb ohonom wedi mwynhau datganiad Elen o 'Cartref'.

Gwerthfawrogydd cân o sioe gerdd 'Serch a dry y byd yn gân' gan Ann, enillydd cenedlaethol, gyda llaw. Mae geiriau'r Anthem Geltaidd yn sicr yn ein clymu ni'r Celtiaid a mwynhad pur oedd clywed Dafydd yn canu'r anthem mor angerddol, yn arbennig y geiriau 'Tros wareiddiad a thros heddwch, Trown ein wyneb tua'r wawr.'

Mae'r gân o'r sioe gerdd 'Ann', 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' yn gyrru ias i lawr cefn rhywun a dyna a wnaeth Elen i bob un ohonom wrth ganu'r emyn hwn gan Ann Griffiths. Ac i ddilyn cafwyd Triawd yn ein swyno gyda'r gân 'Cwsg Osian Cwsg' gan roi clo arbennig i noson arbennig.

Diolchwyd i'r teulu talentog am ein swyno a'n cyfareddu gan Margaret, y Llywydd. Roedd

hi'n hynod braf gweld Ann (Humphreys, gynt) - gwraig Dafydd a mam Elen, wedi troi i fewn i'n gweld. Do, bu Ann yn aelod gyda changen Llanrug am gyfnod pan oedd yn dysgu yn Ysgol Llanrug, felly bu'n noson o hel atgofion i Ann hefyd.

Diolchodd Margaret i Eryl a Margaret Christian am y trefniadau trylwyr. Dymunir cydnabod hefyd haelioni'r Loteri Arian i Bawb, drwy dderbyn grant o £1,000. Mae'r gangen wedi gallu llogi bysiau i fynd i Neuadd Dwyfor, Pwllheli, i weld 'Y Gofalwr' ac i deithio i Lithfaen a chyfrannu at gost teithio Tîm Bowlio Deg yn Glasfryn, Pwllheli. Llongyfarchiadau i Dîm Llanrug a ddaeth yn drydydd allan o saith tîm.

Diolch i Nan, Meryl, Meirwen, Julie, Enid a Mair Parry am gynrychioli'r gangen. Deallir ei bod wedi bod yn noson hwyliog dros ben. Atgoffir pawb fod Noson Chwaraeon ym Mhen-y-groes nos Wener, 23 Ebrill a thrip i Aintree i'r Ffair Grefftau ar 24 Ebrill. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, ar ddydd Sadwrn, 8 Mai.

DALIER SYLW. Bydd cyfarfod Ebrill wythnos yn hwyrach, sef 20 Ebrill a bydd Cyfarfod Mai yn cychwyn am 7.00 o'r gloch, gyda'r Cyfarfod Blynnyddol a chwmni Mari Emlyn. Mwynhewch wyliau'r Pasg a gwelwn chi ar 20 Ebrill.

CADW'N FYWIOG - beth amdani? Cynhelir 6 sesiwn o hwyl yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon yn dechrau ar Nos Lun, 12fed o Ebrill am 7.30 y.h. Os yn aelod o fudiad Merched y Wawr y gôst fydd £1 y sesiwn, ac os nad yn aelod bydd y gôst yn £2. Cynigir badminton, pêl rwyd, symud y corff, acwa aerobeg a llawer mwy !!

Am fwy o fanylion, ffoniwch Nia Llywelyn ar 07770623962. Neu ysgrifennwch ati yn

Awelfa, Cwmllinau, Machynlleth, Powys SY20 9NU
LLONGYFARCHIADAU i
Elain Alaw Morgan, Dolwen,

Ffordd yr Orsaf am gael gradd
lmewn Marchogaeth. Gyda
chariad mawr oddiwrth Mam,
Dad,, Natalie a Martin

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

LLONGYFARCHIADAU i Mrs Eileen Daves, 10 Bro Elidir, ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn ar 31 Mawrth. Gobeithio i chwi fwynhau eich diwrnod.

MARWOLAETH. Ar ddydd Gwener y Groglith, yr 2il o Ebrill, bu farw Mrs Matilda Ellen Roberts (Mattie), o 100 Ffordd Caernarfon, Bangor, yn dawel ond yn frawychus o sydyn, yn Ysbyty Gwynedd.

Merch hynaf y diweddar Mr a Mrs Huw Lewis Jones, Tŷ Newydd Farm, gynt a chwaer annwyl iawn i Marian. Bu iddi briodi yn Eglwys MC Dinorwig gyda'r diweddar Barchedig Isaac Jones yn gwasanaethu, a hynny 53 mlynedd yn ôl.

Bu yn ffyddlon i'r capel yma yn Ninorwig ac yna Parc Hill ym Mangor. Rhyw ddeugain mlynedd yn ôl, derbyniwyd hi a'i gŵr, Alun, yn ofalwyr y Gadeirlan ym Mangor a bu iddi droi i'r Eglwys. Rhyw ugain mlynedd yn ôl bu iddi hi a'i phriod a'r plant symud i fyw i Ffordd Caernarfon, Bangor, ac yna aethant yn aelodau i Eglwys Dewi Sant, Glanadda. Bu yn aelod ffyddlon i'r Eglwys yma hyd y diwedd er ei bod yn anabl iawn bellach. Dyma lle yr oedd ar ei gorau, ymhlith pobl yr Eglwys ac yn mwynhau pob eiliad o fod yno.

Cynhaliwyd yr angladd cyhoeddus ar 9 Ebrill yn Eglwys Dewi Sant ac yna yn dilyn ym Mynwent Newydd Bangor.

DIOLCH. Dymuna teulu y ddiweddar Mrs Matilda Roberts, ddiolch o galon i'r Hybarch Meurig Llwyd Williams, y Parchedig D. John Pritchard a'r Dr Carol Roberts am y ffordd urddasol y bu iddynt ymgymryd â threfnu y gwasanaeth claddu. Roedd hyn yn gymorth mawr iawn i ni fel teulu ar achlysur trist, a chawsom wasanaeth nad aiff byth yn angof.

Diolch am bob gair o gydymdeimlad, y galwadau ffôn, ymwelwyr, cardiau a'r holl arian a dderbyniwyd tuag at Ward Moelwyn, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r ward am y caredigrwydd mawr a gafodd Mattie a ninnau tra yr oedd yn glaf yno. Diolch i'r llu a ddaeth i'r Eglwys i dalu eu teyrnged olaf iddi.

Mawr ddiolch i'r trefnwyr angladdau, sef Mr John Owen Williams a Geraint, y mab, o Fiwmares am drefniant trylwyr ac urddasol dros ben. Diolch, John.

Carem dalu diolch arbennig i'r Parch D. John Pritchard, Margaret Cynfi Griffiths a Mrs Helen Wyn Jones, Rhydfadog.



Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718



Harddwch eich cartref gyda

FFENESTRI CELTIC WINDOWS



FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



• Priodasau • Dathliadau

• Achlysuron Arbennig • Cynadleddau

• Pwyllgorau • Bwydlen Bar

THE LEGACY

ROYAL VICTORIA HOTEL

LLANBERIS

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 0844 119 003

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

GWASANAETHAU'R CAPEL.
Gobeithir cynnal y
gwasanaethau canlynol yn y
capel yn mis Mai:

2: Mr Alan Wyn Roberts

9: Gweinidog, Y Parch
Gwenda Richards

16: Parch R.E. Hughes

23: Cynllun Efe

30: Parch Gwenda Richards

CLWB 300. Enillwyr y Clwb am
fis Mawrth oedd: £30: Mr Don
Roberts, Sŵn y Gwynt; £20: Mr
Norman Williams, Llidiart
Wen; £10: Mrs Gwenda
Griffiths, Trefeddyg.

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Yn y cyfarfod ar Ebrill laf,
croesawodd Catherine Jones, y
Llywydd, Mrs Gina Kent, ein
gwraig wadd am y prynhawn.
Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn
ganddi ynghyd â sleidiau yn
dangos sut yr aeth hi a'i gŵr ati
i atgyweirio yr hen dŷ fferm,
Bron Fedw Isaf, Rhyd-ddu.
Roedd y gwaith caled wedi
cymryd tair blynedd i'w
gwblhau ac erbyn hyn mae'n dŷ
hyfryd dros ben. Mae'r ddau i'w
hedmygu'n fawr am y gwaith
ardderchog y maent wedi ei
wneud. Erbyn hyn mae'n dŷ
Gwely a Brecwast cyfforddus
dros ben. Roedd yr aelodau i
gyd wedi cael pleser mawr yn
gweld y lluniau a chlywed yr
hanes. Diolchodd y Llywydd i
Mrs Kent ac fe roddodd hithau
groeso i ni i alw yno unrhyw
amser i weld y tŷ.

Rhodddwyd y raffl gan Annie
Thomas ac fe'i henillwyd gan
Alice. Cynhelir y cyfarfod nesaf
ar 6 Mai, pryd y bydd Pat yn
trafod y penderfyniadau sydd
i'w trafod yn y cyfarfod
blyneddol yng Nghaerdydd ym
mis Mehefin. Croeso cynnes i
aelodau newydd.

YMDDIHEURIADAU. Rwyf
yn ymddiheuro i Elin, Dôl
Gwyrfa, Stad Bod Hyfryd, am
ei galw yn Nia yn rhifyn y mis
diwethaf o'r Eco.

PRIODAS. Llongyfarchiadau
mawr a phob dymuniad da i
Karl Parry, 7 Bryn Golau, ar ei
briodas â Rachel. Maent wedi
ymgartrefu yng Ngharmel.

Llongyfarchiadau mawr a
phob dymuniad da hefyd i
Mathew a Nia Gosset ar eu
priodas. Yma yn y Waun y
maent wedi gwneud eu cartref.

PEN-BLWYDD PRIODAS.
Bu'r Cynghorydd Gwilym
Williams a'i briod, Mrs Mair
Williams, yn dathlu eu Priodas
Aur yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau a phob
dymuniad da i chi ar yr achlysur
arbennig.

DATHLU PEN-BLWYDD. Bu

Mrs Roberts, Teras Glyn Afon
yn dathlu cyrraedd ei phen-
blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.
Llongyfarchiadau a chofion
cynnes atoch, Mrs Roberts.

LLONGYFARCHIADAU i
Dewi Clark, 2 Stad Pant Waun,
ar gyrraedd ei ddeunaw oed.
Dymuniadau gorau iti i'r
dyfodol, Dewi.

GENEDIGAETHAU.

Ganwyd mab bychan, Cynyr
Glyn, i Geraint a Meleri
Thomas, Cae Glas, brawd i
Math a Nel. Llongyfarchiadau
ichi, deulu bach, a chroeso i
Cynyr.

LLONGYFARCHIADAU
hefyd i Dafydd a Llywela
Davies, Stad Tref Eilian, ar
ddod yn Daid a Nain i Dafydd
Meurig, mab bach i'w merch,
Ceryl a Colin Williams, sy'n
byw yn Rhostryfan.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso
adref i Guto, Teganedd, wedi
iddo dreulio cyfnod yn yr
ysbyty.

Hefyd croeso adref i Mr Dick
Rowlands a Gerald Rowlands,
Stad Bryn Golau, wedi iddynt
hwythau orfod treulio cyfnod
yn yr ysbyty.

Anfonwn ein cofion atoch i gyd
gan fawr obeithio eich bod yn
wella wedi cael dod adref.

CYDYMDEIMLWN yn ddwys
â Sylvia, Betty a Linda yn eu
profedigaeth o golli eu tad, Mr
Eifion Williams, Stad Tref
Eilian, ac hefyd â'i chwaer, Mrs
Betty Griffith, Gorffwysfa.
CYDYMDEIMLWN y ddwys â
Mr a Mrs Aled Williams, Maes
Teg, yn eu profedigaeth o golli
Mrs Denyw Ellis o Aberdesach,
chwaer i Mr Williams.

MARATHON LLUNDAIN.
Dymunwn yn dda i Delyth
Morris, 17 Stad Tŷ Hen fydd yn
rhedeg ym Marathon Llundain
ar Sul olaf y mis yma.

UN FUNUD FACH

YR UN HEN GYNNIG

Nid arnaf fi y mae'r bai i gyd.
Mae'n un o'm ffrindiau'n
rhannol gyfrifol hefyd. Fo
ddywedodd wrthyf, rai misoedd
yn ôl, am y cwmni. Mi wnes
innau holi'r cwmni dros y We,
ond wnes i ddim prynu dim
ganddo. A deud y gwir, roeddwn
i'n falch na wnes i hynny hefyd
pan glywais i fy ffrind yn
cyfaddef ymhen sbel iddo gael
trafferth efo'r cwmni oedd wedi
codi tâl arno am rywbeth na
phrynodd o.

Ond er na phrynais i ddim
gan y cwmni bryd hynny, nac
ers hynny, mae'n dal i anfon
negeseuon ataf yn ddyddiol
bron. Ac mae pob un ohonynt
yn sôn am ryw fargeinion
rhyfeddol. Mae'r rhan fwyaf
ohonynt yn cynnig rhywbeth i
mi am ddim; ac yn ddieithriad
bron, mae'r negeseuon yn
pwysleisio bod hwn yn gynnig
na ellir mo'i ailadrodd. 'Dim
ond heddiw!' 'Un dydd yn
unig!' 'Cyfle unigryw!'

Buan iawn y bliniais i ar y
negeseuon. 'Dim ond heddiw?'
A'r un cynnig yn dod drannoeth
a'r wythnos wedyn a'r mis
wedyn! Erbyn hyn, fydda i
ddim yn darllen y negeseuon
hyd yn oed; ac mi fyddai'n dda
gen i pe bawn i'n medru
perswadio'r cwmni i beidio eu
hanfon.

Mae arnaf fi ofn swnio fel y
cwmni hwn. Wedi'r cyfan, yr un
neges sydd gennyf fi o hyd fel
gweinidog i Iesu Grist. Yr un
cynnig hael sydd yn yr Efengyl,
a'r un yw'r alwad i bobl dderbyn
yr Arglwydd Iesu yn Waredwr.
Yr un yw'r warant am faddeuant
a bywyd newydd. Yr un hefyd
yw'r addewid bod y cyfan i'w
gael yn rhad ac am ddim yn yr
Arglwydd Iesu. Ac oes, mae
arnaf ofn gweld pobl yn blino

am eu bod wedi cyfarwyddo â'r
neges, ac yn rhoi'r gorau i
wrando (os gwnaethon nhw
wrando o gwbl).

Ac eto, dal ati a wnawn ni am
mai dyna'r gorchymyn a
gawsom gan Grist. Dal ati gan
obeithio y gwêl pobl nad
ailadrodd yr un hen gynnig yn
oeraidd a wnawn ni, ond mewn
cariad am ein bod yn
argyhoeddedig nad oes gwell i'w
gael yn unman na'r hyn a
gynigir yng Nghrist Iesu. Dal
ati hefyd gan obeithio y gwêl
pobl bod holl addewidion yr
Efengyl yn ddibynadwy a gwir.

Dal ati wnawn ni i
gyhoeddi'r Efengyl, er
gwaetha'r peryg i bobl fynd yn
rhy gyfarwydd â hi a blino arni.
A gwnawn hynny'n awchus a
brwdfrydig a ffyddiog.
Oherwydd yr unig beth gwaeth
na bod pobl yn blino ar yr
Efengyl yw ein bod ni sy'n ei
chredu yn gwneud hynny
hefyd!

JOHN PRITCHARD

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



Hywel Williams

Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr
hoffech ei drafod gyda'ch AS
mewn cymhorthfa yna
ffoniwch 01286 672076
i wneud apwyntiad neu
ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE

01286-672076

williamshw@parliament.uk

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwyddau Tŷ**

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 - 6.30

8.00 - 6.00 (Sadwrn)

9.00 - 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com



Ar Ben Arall y Lein

Tipyn o beth ydi dweud fy mod heb weld dechrau tymor mor araf ac eleni ar ein afonydd. Does dim brithyll bron wedi dod i'r rhwyd, ond efallai ein bod yn disgwyl gormod wedi'r holl segurdd dros y gaeaf. Er ei bod yn heulog braf mae'r gwynt yn dal i ddod o'r gogledd-ddwyrain, ac felly oer yw'r hin wedi'r cwbl. Does ond eisiau taro golwg ar y mynyddoedd i weld fod yr eira yn gyndyn iawn o ollwng gfael, a thra bod hwn o gwmpas does dim llawer yn digwydd.

Yr unig gynnwrff gefais oedd wrth daro pluen fechan drwy Lyn Engan, cydiodd eog a oedd heb benderfynu ei throi yn ôl am y môr ynddi, ac ar ôl rhyw gwffast fer fe gafodd ei ddychwelyd yn ddiogel i'r afon i gario 'mlaen â'i siwrna am y môr. Gobeithio y cawn weld ein

gilydd eto ymhen rhyw flwyddyn ar ôl iddo wledda yn y moroedd o amgylch Gwlad yr Iâ, hynny yw, wrth gwrs, os na fydd y Mynydd tanlyd 'na wedi niweidio'r fwydlen forol.

Mae'n sicr fod llawer o ddarlennwyr wedi sylwi ar yr erthygl yn un o'r papurau dyddiol yn ddiweddar yn cyfeirio at adroddiad wedi ei chomisiynu gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar broblemau Llyn Padarn. Canlyniad yr archwiliad yw mai carthffosiaeth yn gymysg a thywydd braf yr haf oedd wedi achosi'r broblem! Wel, rwan ta, be sydd am gael ei wneud i wella'r sefyllfa? Mae'n fwy na thebyg y bydd rhaid disgwyl am flwyddyn neu ddwy eto cyn inni gael penderfyniad, ac mae'n debyg y bydd hwnnw yr un ateb ac sydd yn glir i bawb

arall y funud yma! – Ond, cawn weld.

Un gair bach ychwanegol am hyn, pwy sy'n cofio'r haf heulog braf gawson ni flwyddyn diwethaf? Fy ngof i o Orffennaf, Awst a Medi ydi glaw, o dim ond glaw.

Er y prinder ar yr afon, mae rhai sy'n ei mentro am Lyn y Dywarchen yn cael helpa go dda, er ei bod, fel dywedodd un wrthyf. 'Mae fel Siberia yna.' Dal i ddod i'r rhwyd mae brithyll yr Enfys. Rhaid ystyried, wrth gwrs, mai pysgod wedi eu stocio ydi rhain ac felly maent yn rhai hawdd eu dal. Dydw i ddim yn rhoi llawer o sail i hyn achos aflwyddiannus, ran amlaf, fydd fy ymweliadau i â'r lle.

Ar ochr mwy ysgafn, cefais dipyn o dynnu coes am yr ychydig eiriau mis diwethaf am y torgoch a Llyn Llydaw, yn enwedig yr hanes bod fy nghydymaith wedi gweld y 'tylwyth teg' yn mynd a dod ar ochr arall i'r llyn a minnau, wrth gwrs, heb weld dim. Dyma be dywedodd un wrthyf, 'Mi oeddai ti'n edrych yn y lle anghywir – nes am Bwlch y Moch, dyna'r ffordd maent yn mynd a dyfod.' Sgwn i oes rhywbeth yn hyn?

HUW PRICE HUGHES

Rhedeg Mynydd..parhad o dudalen 16

Dinorwig (ail ferch dros 50 oed) a Maggie Oliver, Dinorwig (merch gyntaf dros 60 oed).

Roedd yr amgylchiadau yn well ar gyfer yr ail ras o Ddwygyfylchi i gopa'r Foel Lus ar y nos Fawrth ganlynol: y gwynt yn parhau'n oer, ond y ddaear yn sych a chaled dan draed. Roedd dros ddeg a phedwar ugain o redwyr yn cystadlu y tro hwn, ac unwaith eto roedd rhedwyr lleol yn amlwg yn y canlyniadau. Yn y gwahanol adrannau oedran, roedd Arwel Lewis, Dafydd Thomas a Maggie Oliver yn gyntaf yn eu dosbarthiadau, gyda Bridget Ripley o'r Fachwen yn ail y tro hwn yn y dosbarth i ferched dros 50 oed.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* ddod o'r wasg bydd y drydedd a'r bedwaredd ras eisoes wedi eu cynnal – Mynydd Mawr a Nant Peris. Ar yr ail nos Fawrth ym mis mai cynhelir Moel y Gest, ac ar y bedwaredd, ras Aber-gwynnegrin. Erbyn hynny bydd syniad go dda gan y trefnwyr pwy fydd yn debygol o ennill y gyfres, ond bydd y cystadlu'n parhau, gan fod colli un ras, neu gael amser araf ar ras arall yn gallu newid yr holl ganlyniadau.

Ar hyn o bryd, prin yw'r nifer o blant sy'n cystadlu, ond mae cnewyllyn bychan ffyddlon yn dilyn y rasys ac yn mwynhau. Braf hefyd yw gweld ffyddloniaid y rasys plant yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn mentro i blith y rhedwyr profiadol, ac yn llwyddo. Daeth Owain James o Ddeiniolen yn ddeunawfed yn Ras Moel Tryfan, ac yntau yn cystadlu dan 16 oed. Mae cystadleuaeth frwd yn yr oedran hwn, a siawns na ddaw llwyddiant i rai o ieuenctid y fro.

Yn ystod mis Mai hefyd bydd dwy ras fynydd glasur yn cael eu cynnal, sef y Carneddau a chrib Moel Eilio. Does ond gobeithio y bydd yr eira wedi clirio erbyn hynny ac y bydd gwres yr haul yn taro cefnau'r cystadleuwyr.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON

GWASANAETH GOLCHI A SMWDDIO

E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys



GERAIN'T OWEN
CARPEDI

CARPEDI • VINYLs • TEILS
CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS
A RHAI MEWN STOCK



Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd
A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

SNOWDONIA PARC
WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: (01286) 650218

CHWARAEON

Diwedd Tymor Arall

Erbyn y rhifyn nesaf bydd yn bosib adolygu y tymor pêl-droed i dimau'r ardal. Ar wahân i rediad anhygoel Llanberis yn y Tlws Cenedlaethol does fawr o lwyddiant i dimau'r oedolion. Eto, gyda ailwampio'r system gynghreiriol mae'r gemau diwedd tymor yn allweddol i Lanrug a Llanberis. Mae sôn y bydd y chwe thîm isaf yn yr Alliance yn disgyn. Dylai'n dau dim lleol fod yn saff, gyda'r pwysau mwyaf ar Lanrug. Unwaith eto eleni mae'r pwysau o chwarae tair gêm yr wythnos yn disgyn arnynt.

Cynghrair anhygoel yw'r Alliance pan edrychwch ar faint o gemau sydd ar ôl gan rai o'r clybiau, a hithau yn ddiwedd Ebrill. Pam na ellir chwarae ond gemau cynghrair neu gwpan ar ddyddiadau penodol, fel bod pob tîm yn chwarae yr un nifer o gemau yn gyson. Mae digon o Sadyrnau yn y tymor o Awst i ddechrau Mai.

Yng Nghynghrair Gwynedd mae Bethel yn gyfforddus yng nghanol y tabl, a braf yw croniclo datblygiad chwaraewyr ifanc lleol fel Dyfan Coles yn ddiweddar.

Mae Waunfawr ac ail dîm Llanrug yn agos yng Nghynghrair Arfon ond ni fydd dyrchafiad. Rhaid i bwyllgor y gynghrair benderfynu a yw ail dîm Bangor yn cael dyrchafiad neu bydd rhwystr amlwg yn flynyddol. Mor wahanol yw hi gyda'r timau ieuenctid. Fel y croniclwyd yn y rhifyn diwethaf mae tri thîm o Ysgol Brynrefail yn wynebu gemau rownd derfynol Cwpan Cymru. Hefyd bydd Gleision Bethel dan 16 wedi herio Towyn yn rownd derfynol cwpan Cymdeithas yr Arfordir. Pob lwc iddynt i gyd.

Mae si y bydd rhai o dimau dartiau a phwl efo rhywbeth i'w ddatlu hefyd. Colofn o luniau tro nesaf gobeithio.

Apêl i Ysgolion

Am unwaith mae'n ymddangos fod yr heulwen am groesawu dechreuad y tymor criced lleol. Eleni ni fyddaf yn dyfarnu gan fy mod wedi derbyn y swydd o Reolwr Criced yng nghlwb Bangor. Mae hwn yn ddatblygiad diweddar yn nifer o glybiau uwch gynghrair y Gogledd. Ac mae pwyslais mawr dan arweiniad, Gerallt Jones, y Swyddog Datblygu, yn y gogledd-orllewin i fynd â'r gêm at y plant. I'r perwyl yma gwneir defnydd o David Winter, chwaraewr tramor Bangor o Dde'r Affrig, a Nicola Williams hyfforddwraig Lefel 2. Eisoes mae rhaglen hyfforddi ar gyfer ysgolion wedi ei rhoi mewn lle.

Braf nodi fod Ysgol Brynrefail ar y rhestr. Cafwyd sawl sesiwn lwyddiannus yn Ysgol Gynradd Llanrug llynedd. I ddod yn rhan o'r cynllun gellir cysylltu â Gerallt Jones yn ei swyddfa ym Mhlas Menai. Bydd cael Nicola yn rhan o'r tîm hyfforddi yn gaffaeliad gan fod nifer o ferched yn y grwpiau cynradd y llynedd. Y mae polisi pendant erbyn hyn i ddatblygu criced i ferched. Yn ogystal â'r sesiynau hyfforddi, bydd twrnament, gyda chyfle i gyrraedd y rownd derfynol yng Nghaerdydd.

Gall y chwaraewyr ifanc hefyd ymuno ac adrannau ieuenctid y timau lleol sy'n rhedeg timau -10, -11, -13 a -15 yng Nghynghrair Eryri.

Bywyd yn y Coesau

Dros y blynyddoedd cawsom adroddiadau cyson am gampau nifer o redwyr lleol yn y rasys mynydd. Diolch i Dafydd Whiteside am ei gyfraniadau rheolaidd. Yn amlwg nid gwyliwr neu sylwebydd yn unig yw Dafydd a braf gweld ei enw yn cipio'r tlws i'r rhai dros 60 yn ras gyntaf y Gyfres Nos Fawrth leol. Daeth y tlws i'r oedran dros 50 hefyd i'r ardal gyda'r profiadol Arwel Lewis (Bethel) yn arwain.

HAELIONI'R POST



Tîm Bethel

Cledwyn Jones (Post Bethel) gyda phwyllgor a chwaraewyr Bethel yn eu crysau gemau cartref noddedig.

YN Y GWAED

O reidrwydd mae rhai unigolion neu deuluoedd wedi britho y colofnau hyn yn gyson dros y blynyddoedd. O ran teulu ni ellir curo y Lloyd-Williams' o Lanberis. Iwan y tad fel rheolwr llwyddiannus a arweiniodd y Darans o'r hen Gaernarfon and District drwy Gynghrair Gwynedd a gosod sylfaen i Euron a'r criw ifanc presennol. Yna Marc, wrth gwrs, a'i record anhygoel o goliau i nifer o glybiau y Gynghrair Genedlaethol. Heb anghofio Manon, wrth gwrs, a'i doniau amlwg ym myd hoci, pêl-droed a rygbi gyda chasgliad da o gapiau cenedlaethol.

Ac yn awr, HARRI, mab saith oed Iwan. Eisoes mae Harri wedi denu sylw clwb Everton, ac am y chwe wythnos diwethaf mae wedi bod yn mynychu sesiynau hyfforddi Everton. Wn i ddim a fyddaf yn dal yn y swydd yma mewn rhyw ddeng mlynedd, ond tybed, bryd hynny, a fyddaf yn croniclo datblygiad Harri? Cawn weld.

Sôn am ddatblygiad yr oeddwn wrth gyflwyno Alan Mullery, cyn-chwaraewr Spurs, mewn cinio yn ddiweddar. Siaradwr hynod o ddiddorol, diflewyn ar dafod, ac ar ben ei ddigon wedi i Spurs ddinistrio gobeithion Arsenal o gipio'r

Uwch Gynghrair. Yr oedd yn uchel ei glod o berfformiadau y Cymro ifanc, Gareth Bale, o gofio bod ei ddyfodol yn Spurs dan fygythiad ar ddechrau'r tymor.

Beth Wna i?

Rydwy i angen cyngor ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer Tlws yr Eco eleni. Y broblem yw'r oedran dan 7, un o uchafbwyntiau y gystadleuaeth. Yn sicr dyma'r noson sy'n denu'r dorf fwyaf. Yn anffodus mae newidiadau mawr ynglŷn â rhedeg timau o'r fath, a ffurf eu gemau. 4 pob ochr, ac yn ddi-gystadleuol - beth bynnag mae hynny yn ei feddwl. Trist fuasai meddwl am ddileu'r gystadleuaeth. A ellwch chi glybiau awgrymu unrhyw drefn i mi fel y gallwn barhau heb fod yn destun archwiliad gan yr awdurdodau?

Rhedeg Mynydd

Daeth bron i bedwar ugain o redwyr i ras gyntaf Cyfres Nos Fawrth a gynhaliwyd o'r Fron i gopa Moel Tryfan. Roedd y tywydd bron cynddrwg â'r llynedd, gyda gwynt oer a niwl trwchus dros yr holl gwrs. Roedd hi hefyd yn socian o wlyb dan draed, a does dim rhyfedd felly na thorwyd unrhyw record! Y rhedwyr lleol a ddaeth i'r brig oedd Arwel Lewis, Bethel (cyntaf dros 50 oed), Dafydd Thomas, Llanrug (cyntaf dros 60 oed), Stel Farrar,

parhad ar dudalen 15

Gêm Bêl-droed y Sêr

Dydd Sul, Mai 2il, 12:00 o'r gloch
Cae Pêl-droed Bethel

Dewch i weld dau dîm o sêr y byd adloniant yn chwarae pêl-droed i godi arian i Adran y Plant Ysbyty Gwynedd.

Cyfle i weld rhai o gyflwynwyr Uned Pump a Gofod, actorion Rownd a Rownd, aelodau o Derwyddon Dr Gonzo, Genod Droog, Masters in France, Yr Ods, Something Personal, Mr Huw ac eraill.

Bwyd a diod ar werth - dewch yn llw i fwynhau hwyl a sbri

Trefnwyd gan bwyllgorau timau pêl-droed Bethel a Deiniolen